

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR SAFONAU	STANDARDS COMMITTEE	
DYDD MERCHER, 8 MAWRTH 2017 am 2.00 o'r gloch	WEDNESDAY, 8 MARCH 2017 at 2.00 pm	
YSTAFELL BWYLLGOR 1 SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGFNI	COMMITTEE ROOM 1 COUNCIL OFFICES LLANGFNI	
Swyddog Pwyllgor	Shirley Cooke (01248) 752514	Committee Officer

Aelodau Annibynnol / Independent Members

Mrs. Denise Harris Edwards
Mr. Islwyn Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)
Mrs. Dilys Shaw
Mr. Michael Wilson (Cadeirydd/Chair)
Sedd Wag/Vacant Seat

Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council

Y Cyngorydd/Councillor Trefor Lloyd Hughes
Y Cyngorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

Yn cynrychioli'r Cyngorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils

Y Cyngorydd/Councillor John Chorlton
Y Cyngorydd/Councillor John Roberts

R H A G L E N

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 COFNODION Y CYFARFOD (Tudalennau 1 - 10)

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi, 2016.

3 Cwynion ynghylch Ymddygiad i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Tudalennau 11 - 14)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar ffurf tabl wedi ei ddiweddarau ar gyfer (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned. Er gwybodaeth ac unrhyw gwestiynau.

4 Canfyddiadau Panel Dyfarnu Cymru (Tudalennau 15 - 20)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn cynnwys crynodeb o'r penderfyniadau diweddaraf. Er gwybodaeth ac unrhyw gwestiynau.

5 Diweddariad ar Breseoldeb yr Ombwdsmon yn Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru (Tudalennau 21 - 30)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar gyflwyniad a chwestiynau'r Ombwdsmon ar 17 Hydref, 2016.

6 Diweddariad ar Fabwysiadu'r Côt Ymddygiad Statudol Diwygiedig (Tudalennau 31 - 34)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) i ddiweddarau aelodau ar fabwysiadu'r Côt Ymddygiad diwygiedig, sydd wedi ei gynnwys yn y Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côt Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016, gan Gynghorau Tref a Chymuned

7 Diweddariad ar y Cyflwyniad a Roddwyd i'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned (Tudalennau 35 - 38)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y cyflwyniad a roddwyd gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau i Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar 24 Tachwedd, 2016.

8 Diweddariad ar Gofrestr o Ddiddordebau Cynghorau Tref a Chymuned (Tudalennau 39 - 82)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) i ddiweddarau aelodau ar yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas â'r Gofrestr o Ddiddordebau.

9 Cynghorau Tref a Chymuned - Gwefannau (Tudalennau 83 - 94)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) i ddiweddarau aelodau ar yr ymateb a dderbyniwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned ynglŷn ag a oes ganddynt wefan ai peidio.

10 Fideo'r Ombwdsmon i Aelodau Etholedig (Tudalennau 95 - 96)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar ba Gynghorau Tref a

Chymuned sydd wedi cadarnhau eu bod wedi dwyn y fideo i sylw'r aelodau etholedig.

11 **STRWYTHUR RHEOLI** (Tudalennau 97 - 102)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn cynnwys dogfen Strwythur Rheoli i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau.

12 **NODYN BRIFFIO AR GYFER AELODAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED YNGLYN
Â'R GOFYN I DDATGAN A CHOFRESTRU DIDDORDEBAU PERSONOL** (Tudalennau
103 - 114)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn cynnwys nodyn briffio arfaethedig i'w ddsbarthu i Aelodau ynglŷn â'r newidiadau statudol i'r Côd Ymddygiad.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2016

PRESENNOL: Aelodau Annibynnol

Mr Michael Wilson (Cadeirydd)
Mr Islwyn Jones (Is-Gadeirydd)

Mrs. Denise Harris Edwards
Mrs. Dilys Shaw

Yn cynrychioli Cyngorau Tref a Chymuned

Y Cynghorydd John Roberts

Yn cynrychioli'r Cyngor Sir

Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

WRTH LAW:

Swyddog Monitro,
Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (MY),
Pensaer Gwasanaethau Digidol (SWJ) (mewn perthynas ag Eitem 3),
Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol (MW) (mewn perthynas ag Eitem 4),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

**HEFYD YN
BRESENNOL:**

Neb

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

2 COFNODION Y CYFARFOD

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, 2016 fel rhai cywir.

- **Materion yn codi o gofnodion y Panel Caniatâd Arbennig ar 24 Medi, 2015**

Holodd yr Is-Gadeirydd a fyddai hyfforddiant yn cael ei gynnal ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau ar Ganiatadau Arbennig. Ymatebodd y Swyddog Monitro y bydd trefniadau'n cael eu gwneud i gynnal hyfforddiant ar Ganiatadau Arbennig. Dywedodd ymhellach fod staff y Cyngor yn cael sesiynau hyfforddiant ynghylch y penderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith ac a gyfeirir wedyn i'r Cyngor llawn i'w cadarnhau. 'Roedd y Swyddog Monitro yn ystyried y byddai rhan o'r sesiwn hyfforddi honno yn ddefnyddiol ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau.

Dyweddod y Swyddog Monitro y cynhelir sesiynau hyfforddi gydag aelodau etholedig newydd ynghylch Cyfansoddiad y Cyngor yn dilyn etholiadau'r Cyngor Sir ym Mai 2017. Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol hefyd.

- **Cynghorau Tref a Chymuned - Gwefan**

Dyweddod y Swyddog Monitro na chafwyd ymateb hyd yma gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch pa gamau y bydd yn eu cymryd mewn perthynas â Chynghorau Cymuned nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofyniad i sefydlu gwefan.

3 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GOFRESTRU AR-LEIN YR AELODAU

Rhoddod y Pensaer Gwasanaethau Digidol ddiweddariad llafar ar y gwaith o symud datganiadau o ddiddordeb / rhoddion a lletygarwch ar-lein a thynnodd sylw at y prif faterion fel a ganlyn: -

- **Cofrestr o Diddordebau ar-lein - aelodau i allu dewis p'un ai i lenwi'r ffurflen ar y safle Cymraeg neu'r safle Saesneg**

Eglurwyd y broses gyfredol i'r Pwyllgor ac fe nodwyd nad oedd y system Modern.Gov wedi cael ei datblygu i weithredu'n ddwyieithog. Y gwaith a wnaed i ganiatáu i aelodau etholedig ac aelodau lleyg roi manylion i mewn yn ddwyieithog oedd bod yr aelod yn rhoi ei manylion / fanylion i mewn yn y Gymraeg a'r Saesneg yn y ffurflen Cofrestru Diddordeb drwy system allrwyd y gwasanaethau democrataidd. Nid oes unrhyw opsiwn i'r aelod roi manylion dwyieithog i mewn yn uniongyrchol i'r ffurflen Gymraeg ar gyfer Cofrestru Diddordeb. Mae'n rhaid i'r Tîm Gwasanaethau Digidol wedyn gyfieithu'r manylion a gofrestrwyd gan yr aelodau. Dywedodd y Pensaer Gwasanaethau Digidol fod Modern.Gov wedi cyflwyno cais grant i'r Cynulliad yn 2015 yn gwneud cais am arian i wneud y system yn gwbl ddwyieithog, ond yn anffodus fe'i gwrthodwyd. Nododd y byddai datblygiad sydd wedi ei deilwrio'n bwrpasol i'r diben yn costio oddeutu £10k.

- **Ffurflen ar-lein ar gyfer cofrestru Rhoddion a Lletygarwch - newidiadau i'r ffurflenni ar-lein Cymraeg a Saesneg i ffurf pdf**

Gall aelodau roi gwybodaeth am roddion a lletygarwch i mewn i'r system yn ddwyieithog trwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein gyfredol. Mae'r gofyniad i ychwanegu 'meysydd' i'r ffurflen gyfredol i adlewyrchu'r fformat pdf atodedig yn golygu y bydd angen datblygiad a deilwriwyd yn arbennig i'r pwrpas. Gellir ychwanegu 'swigen gymorth' at y labelu i gynorthwyo. Nodwyd y byddai angen rhoi hyfforddiant i'r aelodau i sicrhau eu bod yn llenwi'r blwch sylwadau gyda data sy'n adlewyrchu cwestiynau a ofynnwyd yn y fformat pdf. Fodd bynnag, dywedwyd bod ychwanegu ychydig o flychau ychwanegol i'r system yn cael sgil-ffaith sylweddol ar rannau eraill o'r system a rhagwelwyd y byddai'r costau'n oddeutu £ 10k.

- **Datgan diddordebau mewn cyfarfodydd - galluogi aelodau i gofrestru eu diddordebau eu hunain ar-lein cyn y cyfarfod**

Mae Aelodau yn cwblhau ffurflenni datgan diddordeb cyn neu yn ystod cyfarfodydd. Y system ar hyn o bryd yw bod y ffurflenni'n cael eu hanfon ymlaen i'r Gwasanaethau Pwyllgor sy'n cyfieithu ac yn ychwanegu'r datganiadau i'r system Modern.Gov wrth baratoi cofnodion cyfarfodydd. Mae'r datganiadau o ddiddordeb mewn cyfarfodydd yn ymddangos ar wefan y Cyngor ar gyfer pob aelod unigol. Rhagwelwyd y byddai'n costio oddeutu £ 7,500 i ychwanegu blychau ychwanegol at y system.

Oherwydd bod gan yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n defnyddio'r system Modern.Gov yr un gofynion o ran dwyieithrwydd ac e-ddemocratiaeth, dywedodd y Pensaer Gwasanaethau Digidol y byddai'n rhesymol i godi'r materion hyn yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Defnyddwyr ym mis Tachwedd ac awgrymu bod datblygiad ar y cyd yn cael ei ariannu gan yr awdurdodau sydd â diddordeb.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chael diweddariad am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â Chofrestrau Ar-lein yr Aelodau.

GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.

4 RHAGLEN HYFFORDDI DRAFFT AR GYFER AELODAU NEWYDD YM MIS MAI 2017

Cyflwynwyd - adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Democraidd a'r Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol mewn perthynas â'r rhaglen hyfforddiant ddrafft ar gyfer Aelodau newydd ym mis Mai 2017.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol fod y cynllun datblygu yn 'rhaglen dreigl' o sesiynau gyda'r bwriad o barhau i atgyfnerthu'r gwaith o gefnogi aelodau yn eu rolau ac i wella safonau a datblygu arferion da ar gyfer yr Aelodau cyfredol a'r aelodau newydd a etholir ym mis Mai 2017. Cyn belled ag y bo modd, mae'r rhaglen yn ceisio darparu ar gyfer anghenion hyfforddi'r Aelodau. Paratowyd y Cynllun Datblygu a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad am y cyfnod Ebrill 2016 - Mawrth 2017 er mwyn tynnu sylw at y prif gyfleoedd hyfforddiant a gynigir ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r Cynllun wedi cael ei ddiweddaru ers iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn ym mis Mai 2016 er mwyn cymryd i ystyriaeth y sesiynau hyfforddi ychwanegol a roddwyd i Aelodau. Dywedodd y Swyddog ymhellach y bydd yr aelodau newydd a etholir ym Mai 2017 yn cael holiadur er mwyn gallu darganfod lefel eu sgiliau TG fel y gellir gweld pa hyfforddiant y byddant ei angen. Yn ogystal, mae cyfres o becynnau e-ddysgu ar gael i gefnogi aelodau yn eu rolau hefyd.

Yn ogystal, mae Rhaglen Gynefino ddeuddeng mis wedi cael ei datblygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y cyd â'r holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru i baratoi am y cyfnod yn dilyn etholiadau 2017. 'Roedd y Rhaglen gynefino arfaethedig ynghlwm wrth yr adroddiad.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a bod y Pwyllgor Safonau yn cael gwybodaeth am yr hyfforddiant a ddarperir gan y Cyngor.

GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.

5 CANLLAWIAU DIWYGIEDIG GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR Y CÔD YMDDYGIAD I AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar y canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer (a) Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, a (b) Cynghorau Cymuned.

Amlygodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) y prif newidiadau (a) i'r canllawiau i aelodau awdurdodau lleol : -

- Sancsiynau
- Caniatâd i apelio
- Rhoi gwybod am dorri amodau
- Diddordeb Personol – Materion Ward a materion yr Awdurdod
- Diddordebau Personol a Diddordebau sy'n Rhagfarnu - Enghraifft Newydd
- Diddordeb Personol a Diddordebau sy'n Rhagfarnu - Sylwadau Ysgrifenedig
- Diddordeb Personol a Diddordebau sy'n Rhagfarnu - Enghraifft Ychwanegol
- Goddefebau
- Cofrestr Diddordebau
- Cofrestru Diddordebau

a

(b) 'roedd y canllawiau i Aelodau Cyngorau Tref a Chymuned ychydig yn wahanol i'r uchod, gyda gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r canlynol: -

- Cofrestr o Ddiddordebau
- Rhoi gwybod am dorri amodau
- Diddordeb Personol a Diddordebau sy'n Rhagfarnu - Enghraifft Newydd
- Cofrestru Diddordebau

Gofynnodd yr Is-Gadeirydd am eglurhad mewn perthynas â'r pennawd 'Goddefebau' ac yn arbennig yr ymadrodd 'anabledd person'; yn enwedig y geiriad yn fersiwn Gymraeg y canllawiau diwygiedig. Ymatebodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) y gellir gofyn am eglurhad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhelir ym mis Hydref.

Cododd yr Is-Gadeirydd fater ynghylch beth fyddai disgwyliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru pan fo Cyngorwyr Tref / Cymuned yn gwneud cwynion am ei gilydd a chrybwyllodd y mater 'Datrysiaid Lleol' hefyd. Ymatebodd y Swyddog Monitro trwy ddweud, pe bai'n cael cwyn gan Gyngorwyr Tref / Cymuned, y byddai'n cynghori y dylid delio â'r mater yn lleol yn y lle cyntaf cyn i'r gŵyn gael ei throsglwyddo, os yn briodol, i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Byddai'n dibynnu ar amgylchiadau'r achos.

PENDERFYNWYD: -

- **Nodi'r canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon.**
- **Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i sicrhau bod y canllawiau newydd, a'r newidiadau cyfreithiol perthnasol, fel y disgrifir nhw ym mharagraff 3 yr adroddiad, yn cael eu dwyn i sylw Aelodau'r Cyngor Sir.**
- **Gofyn i'r Swyddog Monitro sicrhau bod y canllawiau newydd, ynghyd a'r newidiadau cyfreithiol perthnasol, fel y disgrifir nhw ym mharagraff 3, yn cael eu dwyn i sylw Clercod y Cyngorau Tref / Cymuned a gofyn iddynt gadarnhau yn ysgrifenedig bod y canllawiau wedi eu rhannu gyda'u haelodau.**

GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.

6 NODYN BRIFFIO I AELODAU AR NEWIDIADAU STATUDOL I'R CÔD YMDDYGIAD AR GYFER AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) a oedd yn atodi nodyn briffio y bwriedir ei ddsbarthu i aelodau Cyngor Sir Ynys Môn ar y newidiadau statudol i'r Côt Ymddygiad.

PENDERFYNWYD: -

- **Nodi cynnwys y Nodyn Briffio;**
- **Cadarnhau y gellir dosbarthu'r Nodyn Briffio i'r Aelodau Etholedig yn enw'r Pwyllgor Safonau.**
- **Addasu'r nodyn briffio ar gyfer aelodau etholedig Cyngor Sir Ynys Môn fel bod modd dosbarthu dogfen debyg i Glercod y Cyngorau Tref a Chymuned i'w rhannu gyda'u haelodau.**

GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.

7 CWYNIION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar ffurf matrices wedi'i ddiweddarau ar gyfer (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorau Tref a Chymuned.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

GWEITHREDU: Dim

8 PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynwyd - a nodwyd er gwybodaeth, grynodedb o benderfyniadau diweddaraf Panel Dyfarnu Cymru .

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

GWEITHREDU: Dim

9 FFORWM Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar y trefniadau ar gyfer cyfarfod nesaf Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhelir ar 17 Hydref, 2016 yn Llangefni.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) y bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn bresennol yn y Fforwm ac os oes gan aelodau'r Pwyllgor Safonau unrhyw gwestiynau iddo rhaid eu cyflwyno i'r Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) erbyn 4 Hydref, 2016 .

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

GWEITHREDU: Rhaid cyflwyno unrhyw gwestiynau y mae aelodau'r Pwyllgor Safonau yn dymuno eu gofyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) erbyn 4 Hydref 2016.

10 CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar newidiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ei bod yn ofynnol i Bwyllgorau Safonau gyfarfod o leiaf unwaith bob blwyddyn. Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2016 penderfynodd y Pwyllgor Safonau ostwng nifer y cyfarfodydd cyffredin o 4 i 2 bob blwyddyn. Cynhelir cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor Safonau hefyd i sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw rwymedigaethau statudol a bydd cyfarfodydd anffurfiol yn parhau fel y bo angen. Nid oes angen newid Cyfansoddiad y Cyngor, ond mae angen newid Cyfansoddiad y Pwyllgor Safonau.

'Roedd Atodiad 1 a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad yn cynnwys newidiadau i Gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau a gwahoddwyd y Pwyllgor i awgrymu newidiadau eraill y bernir bod eu hangen. Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) bod angen gwneud newid pellach i'r ddogfen 'Gweithdrefn ar gyfer Gwrandawriadau Safonau Lleol' – 14 Apeliadau; rhaid bellach cael caniatâd yn gan Banel Dyfarnu cyn y gellir cyflwyno apêl.

Soniodd yr Is-Gadeirydd am y pennawd 'Penderfyniad i gynnal gwrandawriad lleol' o fewn y Weithdrefn ar gyfer Gwrandawriadau Safonau Lleol (tudalen 152 yn yr Adroddiad) ac 'roedd yn ystyried y dylai'r geiriad ddarllen 'y gall bod tystiolaeth o fethiant gan yr Aelod i gydymffurfio â'r Côt Ymddygiad'.

Cyfeiriodd ymhellach at y 'Weithdrefn Cyn-Gwrandawriad' pennawd (e) (tudalen 152 yn yr adroddiad) a bod angen ei ddiwygio i adlewyrchu'r broses dau gam a ddilynir. Yn ogystal, mae angen diwygio'r pennawd 'Camau gweithredu yn dilyn methiant i gydymffurfio gyda'r Côt Ymddygiad' (tudalen 159 a rhan (dd) o'r adroddiad) i adlewyrchu pan fydd unrhyw sancsiwn yn cael ei osod. Ymatebodd y Swyddog Monitro y gellid cynnwys hyn fel cwestiwn i'r Ombwdsmon yn ystod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.

PENDERFYNWYD: -

- **Mabwysiadu Cyfansoddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn fel y sefydlwyd ef yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 gyda'r newidiadau anodedig a geir yn Atodiad 1 a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad a'r newidiadau pellach a drafodwyd;**
- **Codi cwestiwn gyda'r Ombwdsmon yn ystod Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhelir ar 17 Hydref, 2016 mewn perthynas â chanllawiau i'r Pwyllgor Safonau ar sancsiynau.**
- **Wedi hynny, cyhoeddi Cyfansoddiad diwygiedig y Pwyllgor Safonau, ynghyd â'r atodiadau, ar wefan y Cyngor Sir.**

GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.

11 MABWYSIADU'R CÔD YMDDYGIAD DIWYGIEDIG STATUDOL A GOFYNION HYSBYSEBU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn rhoi gwybod i Aelodau am fabwysiadu'r Côt Ymddygiad diwygiedig a gynhwysir yng Ngorchymyn Awdurdodau Lleol (Côt Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygiad) 2016 a'r gofynion mabwysiadu yn dilyn ei fabwysiadu. Daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Ebrill, 2016.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod gan bob awdurdod y mae'r Côt yn berthnasol iddo tan 26 Gorffennaf i fabwysiadu'r Côt Ymddygiad diwygiedig. Nodwyd bod y Cyngor llawn, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2016, wedi mabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig.

Anfonwyd e-bost ar ran y Pwyllgor Safonau i holl Glercod y Cyngorau Tref a Chymuned ar 25 Mai 2016 yn gofyn am gopi o'r cofnod perthnasol o gyfarfodydd y Cyngor sy'n cadarnhau y mabwysiadwyd y Côt diwygiedig. 'Roedd matrices yn dangos sut mae pob Cyngor Tref a Chymuned wedi ymateb ynghlwm fel Atodiad 3 i'r adroddiad a rhoddwyd diweddariad llafar ynghylch y Cyngorau hynny a oedd wedi ymateb ar ôl i'r matrices gael ei lunio. Hyd yma nid yw 5 Cyngor Cymuned wedi ymateb. 'Roedd y Pwyllgor Safonau yn ystyried y dylid gofyn i Aelod(au) Etholedig lleol sôn wrth y Cyngorau Cymuned hynny bod rhaid mabwysiadu'r Côt diwygiedig ac y dylid ymateb i gais y Swyddog Monitro bod Cyngorau Tref a Chymuned yn cadarnhau eu bod wedi mabwysiadu'r Côt diwygiedig.

Ar ôl ei fabwysiadu, yn unol ag Adran 51 (6) Deddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid gosod hysbyseb mewn un neu ragor o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal leol yn cadarnhau y mabwysiadwyd y Côt Ymddygiad ac yn nodi pa bryd ac ym mha le y mae ar gael i'w harchwilio.

Holodd Aelodau'r Pwyllgor a oedd cynnwys hysbyseb mewn Papur Cymunedol Lleol (Papur Bro) yn ddigonol o ran cwrdd â'r gofynion bod Cyngorau Tref / Cymuned yn hysbysu'r gymuned fod y Côt Ymddygiad wedi ei fabwysiadu ynghyd â manylion ynghylch ble a phryd yr oedd ar gael i'w harchwilio. Eglurodd y Swyddog Monitro bod y ddeddfwriaeth yn dweud 'papurau newydd sy'n cylchredeg yn eu hardal' ac felly ymatebodd ei bod yn ystyried ei bod yn briodol i hysbysebu yn y Papur Bro ar yr amod ei fod yn cylchredeg yn yr ardal y mae'r cyngor tref neu'r cyngor cymuned yn gweithredu ynddi. Fodd bynnag, crybwyllwyd hefyd fod angen i'r hysbyseb fod yn ddwyieithog ac fel arfer mae'r Papurau Bro yn y Gymraeg yn unig ac felly gallai fod yn fwy priodol i ystyried hysbysebu yn y 'Chronicle' neu'r 'Mail'.

PENDERFYNWYD: -

- **Nodi cynnwys yr adroddiad;**
- **Cysylltu â Chlercod y Cynghorau Cymuned / Tref sydd heb ymateb i ofyn eto am gadarnhad bod eu Cynghorau wedi mabwysiadu'r Côt Ymddygiad a gofyn iddynt ddarparu copi o'r cofnod perthnasol o gyfarfodydd y Cyngor sy'n cadarnhau eu bod wedi mabwysiadu'r Côt diwygiedig;**
- **Gofyn i'r Aelod(au) Lleol Etholedig ar gyfer yr ardaloedd lle nad yw'r Cynghorau Cymuned wedi cadarnhau eu bod wedi mabwysiadu'r Côt Ymddygiad i godi'r mater yng nghyfarfod nesaf y Cynghorau Cymuned hynny ac i adrodd yn ôl i'r Safonau Pwyllgor.**

GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.

12 GOFYNION DATGAN DIDDORDEB AR GYFER CYNGHORWYR CYMUNED

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar y gofynion cyfredol mewn perthynas â datgan diddordeb gan Gynghorwyr Cymuned.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2015 wedi egluro'r sefyllfa o ran cofrestru diddordeb gan Gynghorwyr Tref a Chymuned. Cyn yr adolygiadau a wneir gan y Pwyllgor Safonau, mae angen i'r Pwyllgor fod yn ymwybodol o'r disgwyliadau statudol ar Gynghorau Tref a Chymuned gam mai'r rhain yw'r safonau y bydd yr adolygiadau yn asesu cydymffurfiaeth yn eu herbyn.

Nodwyd bod dyfyniad o gyngor dyddiedig 10 Awst, 2015 a roddwyd gan Unllais Cymru i'w aelodau ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Roedd y cyngor hwnnw yn datgan nad oes raid i Gynghorwyr Tref a Chymuned gwblhau cofrestr 'sefydlog' o ddiddordebau. Dywedodd y Swyddog Monitro ei bod yn ymddangos fod peth dryswch ar y mater hwn gyda gwahanol gynghorion yn cael eu cyhoeddi i Gynghorau Tref / Cymuned gyda disgwyliadau sy'n tynnu'n groes i'w gilydd. Fodd bynnag, derbyniwyd bod y nodyn o gyngor gan Unllais Cymru yn Atodiad 1 yr adroddiad yn egluro'r sefyllfa gyfredol yn gwbl gywir. Yn ogystal, mae canllawiau dyddiedig 2 Mawrth 2016 gan Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod 'yr eithriad ar gyfer cynghorwyr cymuned rhag y gofyniad i gofrestru rhai diddordebau ariannol a rhai diddordebau eraill ymlaen llaw yn parhau'.

Amlygwyd y gofynion cofrestru o dan y côd ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned yn rhannau 2 (a) i (i) yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: -

- **Nodi'r gofynion o ran y Gofrestr o Ddiddordebau y mae'n ofynnol i Glercod ei chynnal yn dilyn datgeliadau gan aelodau o'u Cyngor Cymuned / Tref.**
- **Ystyried y gofynion hyn pan fydd y Pwyllgor Safonau yn adolygu Cofrestrau o Ddiddordebau sampl o Gynghorau Tref a Chymuned.**

GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.

ADOLYGIAD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU O GOFRESTRAU O DDIDDORDEBAU AR GYFER CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar yr adolygiad sydd i'w gynnal gan y Pwyllgor Safonau o'r Cofrestrau o Ddiddordeb a gedwir gan Gynghorau Tref a Chymuned.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) bod gohebiaeth wedi ei hanfon ar 27 Mehefin, 2016 at glercod y 40 Cyngor Tref / Cymuned yn gofyn a yw'r cofnodion ar gyfer y cyfnod o fis Mai 2013 ar gael ar wefannau Cynghorau Cymuned / Tref neu ar bapur fel y gellir gwneud trefniadau i'w hadolygu o bell neu i adolygu'r cofnodion perthnasol yn y lleoliad priodol. 'Roedd matrices yn dangos sut mae pob Cyngor Tref a Chymuned wedi ymateb ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Cafwyd diweddariad llafar ynghylch y Cynghorau hynny a oedd wedi ymateb ar ôl i'r matrices gael ei gyhoeddi. Hyd yma nid yw 5 Cyngor Cymuned wedi ymateb.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ymhellach bod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi nodi yr adolygir Cofrestrau o Ddiddordeb 6 Chyngor Cymuned / Tref 6 fel y nodir yn yr adroddiad.

'Roedd Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn ystyried y dylid anfon gohebiaeth bellach at y rheini sydd heb ymateb i holi pam nad ydynt wedi ymateb i'r cais am wybodaeth ynghylch cadw cofnodion ac y dylid gofyn i Aelod (au) Etholedig y Cyngor Sir godi'r mater yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned ac adrodd yn ôl i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Ystyriwyd hefyd y dylid adolygu Cynghorau Tref Caergybi ac Amlwch yn gyntaf gan y Pwyllgor Safonau. Cynhelir cyfarfod ar ôl hynny cyn trafod y Cynghorau eraill a adolygir.

PENDERFYNWYD: -

- **Nodi cynnwys yr adroddiad a'r matrices yn Atodiad 1, yn amodol ar y diweddariad llafar;**
- **Anfon gohebiaeth bellach at y Cynghorau Tref / Cymuned sydd heb ymateb i'r cais a wnaed gan y Pwyllgor Safonau i adolygu eu cofnodion;**
- **Gofyn i'r Aelod (au) Etholedig sy'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor Tref / Cymuned nad ydynt wedi ymateb i gais y Pwyllgor Safonau i godi'r mater yn y cyfarfodydd hynny ac adrodd yn ôl i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau;**
- **Bod y Cadeirydd a Mrs. Dilys Shaw (Aelod Lleyg) yn adolygu cofnodion Cyngor Tref Caergybi a bod yr Is-Gadeirydd a Mrs. Denise Harris Edwards (Aelod Lleyg) yn adolygu cofnodion Cyngor Tref Amlwch ac yn adrodd yn ôl wedyn i'r Pwyllgor Safonau.**

GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.

**MR. MICHAEL WILSON
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH
CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

PWYLLGOR SAFONAU – 08.03.2017 – STANDARDS COMMITTEE

Enw'r Cynghorydd Name of Councillor	Enw'r Achwynydd Name of Complainant	Cyfeirnod y Ffeil File Reference (i) Un ni/Ours (ii) "O"	Dyddiad y Gŵyn - "O" Complaint date - "O"	Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol Result of "O" Investigation and date or the current situation
1. Cynghorydd Sir / County Councillor	Aelod o'r cyhoedd / Member of public	(i)019808 (ii) 12263/201604689	04.11.2016	Ombwdsmon ddim am ymchwilio'r gwyn oherwydd nad ydi prawf budd y cyhoedd wedi ei fodloni / Ombudsman will not investigate the complaint as the public interest test has not been satisfied
2. Cynghorydd Sir / County Councillor	Aelod o'r cyhoedd / Member of public	(i)019809 (ii) 12263/201604688	04.11.2016	Ombwdsmon ddim am ymchwilio'r gwyn oherwydd nad ydi prawf budd y cyhoedd wedi ei fodloni / Ombudsman will not investigate the complaint as the public interest test has not been satisfied

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH
CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING
TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

PWYLLGOR SAFONAU – 08.03.2017 – STANDARDS COMMITTEE

Enw'r Cynghorydd Name of Councillor	Enw'r Achwynydd Name of Complainant	Cyfeirnod y Ffeil File Reference (i) Un ni/Ours (ii) "O"	Dyddiad y Gŵyn - "O" Complaint date - "O"	Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol Result of "O" Investigation and date or the current situation
Tudalen 12 Cynghorydd Tref/Cymuned / Town/Community Councillor	Aelod Etholedig / Elected Member	(i) 019735 (ii) 201603639	16.09.2016	Ombwdsmon yn ymchwilio'r gŵyn / Ombudsman investigating the complaint
Cynghorydd Tref/Cymuned / Town/Community Councillor	Aelod Etholedig / Elected Member	(i) 020021 (ii) 201606584	03.02.2017	Ombwdsmon yn ystyried a oes sail dros gynnal ymchwiliad i'r gŵyn / Ombudsman considering if there is merit in investigating the complaint
Cynghorydd Tref/Cymuned / Town/Community Councillor	Aelod Etholedig / Elected Member	(i) 020047 (ii) 201606989	20.02.2017	Ombwdsmon yn ystyried a oes sail dros gynnal ymchwiliad i'r gŵyn / Ombudsman considering if there is merit in investigating the complaint
Cynghorydd Tref/Cymuned / Town/Community Councillor	Aelod Etholedig / Elected Member	(i) 020048 (ii) 201606991	20.02.2017	Ombwdsmon yn ystyried a oes sail dros gynnal ymchwiliad i'r gŵyn / Ombudsman considering if there is merit in investigating the complaint

Cynghorydd Tref/Cymuned / Town/Community Councillor	Aelod Etholedig / Elected Member	(i) 020049 (ii) 201606992	20.02.2017	Ombwdsmon yn ystyried a oes sail dros gynnal ymchwiliad i'r gŵyn / Ombudsman considering if there is merit in investigating the complaint
Cynghorydd Tref/Cymuned / Town/Community Councillor	Aelod Etholedig / Elected Member	(i) 020050 (ii) 201606994	20.02.2017	Ombwdsmon yn ystyried a oes sail dros gynnal ymchwiliad i'r gŵyn / Ombudsman considering if there is merit in investigating the complaint
Cynghorydd Tref/Cymuned / Town/Community Councillor	Aelod Etholedig / Elected Member	(i) 020051 (ii) 201606993	20.02.2017	Ombwdsmon yn ystyried a oes sail dros gynnal ymchwiliad i'r gŵyn / Ombudsman considering if there is merit in investigating the complaint
Cynghorydd Tref/Cymuned / Town/Community Councillor	Aelod Etholedig / Elected Member	(i) 020052 (ii) 201606995	20.02.2017	Ombwdsmon yn ystyried a oes sail dros gynnal ymchwiliad i'r gŵyn / Ombudsman considering if there is merit in investigating the complaint
Cynghorydd Tref/Cymuned / Town/Community Councillor	Aelod Etholedig / Elected Member	(i) 020053 (ii) 201606996	20.02.2017	Ombwdsmon yn ystyried a oes sail dros gynnal ymchwiliad i'r gŵyn / Ombudsman considering if there is merit in investigating the complaint
Cynghorydd Tref/Cymuned / Town/Community Councillor	Aelod Etholedig / Elected Member	(i) 020054 (ii) 201606990	20.02.2017	Ombwdsmon yn ystyried a oes sail dros gynnal ymchwiliad i'r gŵyn / Ombudsman considering if there is merit in investigating the complaint

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	8 Mawrth 2017
TEITL YR ADRODDIAD:	Canfyddiadau Panel Dyfarnu Cymru Ebrill 2016- Mawrth 2017
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Darparu gwybodaeth ar y materion y rhoddwyd sylw iddynt gan Banel Dyfarnu Cymru
ADRODDIAD GAN:	Cyfreithiwr - Llywodraethu Corfforaethol
SWYDDOG CYSWLLT:	Mared Wyn Yaxley, mwycs@ynysmon.gov.uk 01248 752566

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru yn unol o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

- Ffurio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos dros dro i ystyried adroddiadau gan yr Ombwdsmon yn dilyn ymchwiliadau i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod; ac
- Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r côd ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu os y rhoddir caniatâd i apelio yn y lle cyntaf)

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a wnaed gan y Panel Dyfarnu am y cyfnod Ebrill 2016- Mawrth 2017 ac fe'i bwriedir fel crynodeb ffeithiol o'r materion sy'n dod gerbron y Panel Dyfarnu. Ni fydd yn disodli'r adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor pan fydd Panel Dyfarnu yn rhoi sylw i gwyn sy'n ymwneud â Chyngor Sir Ynys Môn.

2. Ebrill 2016- Mawrth 2017

Nodwch gynnwys **Atodiad 1**.

2.1 Penderfyniadau a wnaed

25/07/2016 – Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref Y Barri –
APW/002/2015-016/CT

2.2 Apeliadau a ddyfarnwyd

27/09/2016 –Cyngor Cymuned Manorbier – APW/001/2016-017/AT

Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achosion - Ebrill 2016-Mawrth 2017* (* hyd at 27.02.2017)
Summary of Cases in Tribunal – April 2016-March 2017* (* until 27.02.2017)

Enw	Crynodeb o'r Ffeithiau	Rhannau Perthnasol y Cod	Crynodeb	Canfyddiadau
Y Cynghorydd Robert Curtis	<p>Honiad bod y Cynghorydd Curtis wedi torri Codau Ymddygiad Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri oherwydd iddo gael ei ddyfarnu'n euog o ymosodiad cyffredin. Yr amgylchiadau a arweiniodd at y ddedfryd oedd bod y Cynghorydd Curtis wedi cyffwrdd yng nghoes dynes a oedd yn gwylio adar ag o mewn cuddfan adar ar Ynys Skomer.</p> <p>Yn unol â dymuniadau'r Cynghorydd ystyriodd y Tribiwnlys Achos y mater ar sail sylwadau ysgrifenedig.</p>	<p>Torri paragraffau 2(1)(d) a 6(1)(a) o God Ymddygiad Cyngor Bro Morgannwg, a pharagraffau 3 a 6 o Godau Ymddygiad Cyngor Tref y Barri.</p>	<p>Penderfyniad unfrydol y dylid gwahardd y Cynghorydd rhag bod yn aelod o Gyngor Tref y Barri a Chyngor Bro Morgannwg am gyfnod o 3 mis, neu am weddill ei gyfnod fel Cynghorydd os yw hynny'n llai na 3 mis.</p> <p>Roedd ymddygiad y Cynghorydd wedi arwain at euogfarn droseddol a chyhoeddwyd sylwadau negyddol am y Cynghorydd yn y wasg. Fodd bynnag, penderfynwyd mai digwyddiad unigol oedd hwn a'i bod yn annhebygol y byddai'r Cynghorydd yn gwneud rhywbeth tebyg eto ac roedd y Cynghorydd wedi ymddiheuro am ei ymddygiad. Roedd y Cynghorydd wedi cyfeirio ei hun ac wedi cydweithredu â'r broses ymchwilio.</p>	<p>Roedd yr Ombwdsmon wedi cyfeirio'r mater i Banel Dyfarnu Cymru oherwydd yr honiadau a wnaed yn erbyn y Cynghorydd. Nid oedd euogfarn y Cynghorydd ynddo'i hun yn dystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad; ond roedd yr ymddygiad gyfystyr ag ymosodiad ac yn ymddygiad sy'n dwyn anfri ac yn torri'r Cod.</p> <p>Roedd y Tribiwnlys Achos yn ystyried bod hawl ganddo i edrych ar yr ymddygiad a oedd wedi arwain at yr euogfarn a phenderfynu a oedd yn torri rhannau perthnasol y cod ymddygiad.</p> <p>Roedd y Cynghorydd wedi gofyn, oherwydd natur yr honiad, bod o leiaf un aelod gwrywaidd ar y panel. Roedd y Panel wedi cymryd y cais i ystyriaeth ond gan nad oedd PDC yn cynnwys aelodau gwrywaidd nid oedd yn ymarferol cydsynio â chais y Cynghorydd.</p>

Enw	Crynodeb o'r Ffeithiau	Rhannau Perthnasol y Cod	Crynodeb	Canfyddiadau
				<p>Canfuwyd bod ymddygiad y Cynghorydd, sef cyffwrdd yng nghoes dynes heb ei chaniatâd tra yr oedd yn gwyllo adar ar Ynys Gomer, yn annerbyniol ac y gallai ddwyn anfri ar swydd y Cynghorydd.</p> <p>Roedd gweithred ddigymell y Cynghorydd o gyffwrdd yn y ddynes ifanc ac achosi gofid iddi wedi arwain at erlyniad gan yr heddlu (ac roedd y Cynghorydd wedi pledio'n euog i'r cyhuddiad hwnnw). Penderfynwyd bod hyn yn ymddygiad annerbyniol a byddai'n lleihau hyder y cyhoedd yn y drefn ddemocrataidd leol.</p>

Crynodeb o'r Achosion yn y Tribiwnlysoedd Apêl - Ebrill 2016-Mawrth 2017* (* hyd at 27.02.2017)
Summary of Cases in Appeal Tribunal – April 2016-March 2017* (* until 27.02.2017)

Enw	Crynodeb o'r Ffeithiau	Rhannau Perthnasol y Cod	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
<p>Y Cynghorydd Lynda Parker</p>	<p>Cyflwynwyd apêl yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Benfro bod y Cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Cymuned Manorbier ac y dylai gael ei gwahardd am 2 fis.</p> <p>Roedd yr Achos yn ymwneud â honiadau bod y Cynghorydd wedi torri paragraffau 14(1)(a), (c) ac (e) y Cod Ymddygiad drwy beidio datgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu, peidio gadael cyfarfod pan oedd y mater yn cael ei ystyried ac roedd y Cynghorydd wedi gwneud sylwadau yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd ac wedi pleidleisio ar y cynnig.</p> <p>Honnwyd bod gan y Cynghorydd ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn cais cynllunio ar gyfer parc carafanau yn agos i'w chartref yr oedd hi wedi gwneud cwynion yn ei gylch yn y gorffennol.</p>	<p>Torri paragraffau 14(1)(a), (c) a (e) y cod ymddygiad.</p>	<p>Penderfyniad unfrydol y dylai'r mater fynd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau gyda'r argymhelliad bod y Cynghorydd yn cael ei gwahardd am gyfnod o 3 mis.</p> <p>Roedd y gwaharddiad gwreiddiol a roddwyd gan y Pwyllgor Safonau am gyfnod o 2 fis. Roedd gofyn hefyd i'r Cynghorydd fynychu cwrs hyfforddi ar y Cod Ymddygiad o fewn 6 mis. Fodd bynnag roedd PDC yn argymhell bod cyfnod y gwaharddiad yn cael ei godi i 3 mis. Penderfynwyd nad oedd y mater ynglŷn â hyfforddiant yn rhan o gylch gorchwyl y Panel Apêl. Fodd bynnag roedd y Panel o'r farn y byddai hyfforddiant o fudd i'r Cynghorydd.</p>	<p>Roedd y Cynghorydd yn berchen tir gerllaw tir arall a oedd yn eiddo i'w chymydog, Mr Brown, a oedd wedi cyflwyno cais cynllunio ar gyfer Parc Carafanau a Gwersylla Buttyland.</p> <p>Yn y gorffennol roedd y Cynghorydd wedi codi nifer o bryderon gyda'r awdurdod cynllunio lleol am nifer o achosion o dorri caniatâd cynllunio gan Mr Brown a busnes arall a oedd yn gweithredu gerllaw ei heiddo ac nad oedd yn gysylltiedig â busnes Mr Brown.</p> <p>Roedd y Cynghorydd wedi datgan diddordeb personol yn y cais cynllunio yn ystod cyfarfod o Gyngor Cymuned Manorbier pan oedd y cais cynllunio'n cael ei drafod; ond roedd hi wedi methu â sylweddoli bod ganddi ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu oherwydd a) bod y safle carafanau a gweryslla'n agos i'w chartref a b) ei bod wedi</p>

Enw	Crynodeb o'r Ffeithiau	Rhannau Perthnasol y Cod	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
				<p>gwneud sylwadau cynharach am faterion rheoli adeiladu mewn perthynas â Pharc Carafanau a Gwersylla Buttyland.</p> <p>Roedd honiad y Cynghorydd na fyddai ei barn yn cael ei effeithio, mewn perthynas â'r prawf gwrthrychedd cyhoeddus, oherwydd ei chefnidir proffesiynol fel cynllunydd tref yn anghywir; roedd ganddi diddordeb personol (a gafodd ei ddatgan gan y Cynghorydd) ac felly roedd angen iddi ystyried y prawf gwrthrychedd o safbwynt diddordeb y cyhoedd. Nid oedd wedi derbyn caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau.</p> <p>Roedd 'cyfarfod ymlaen llaw' wedi ei drefnu yng nghartref cyd-gynghorydd i drafod y cais cynllunio, cyn cyfarfod y Cyngor Cymuned. Roedd hyn yn destun pryder i'r Ombwdsmon. Esboniodd y Tribiwnlys Apêl nad oedd ganddo'r grym i wneud canfyddiadau am ddoethineb cyfarfodydd o'r fath ond o ystyried y dylai busnes y cyngor gael ei</p>

Enw	Crynodeb o'r Ffeithiau	Rhannau Perthnasol y Cod	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
				<p>weithredu mewn modd tryloyw gallai ddeall pryderon yr Ombwdsman.</p> <p>Fel y cydnabu'r Panel Apêl, roedd yn rhesymol disgwyl i'r Cynghorydd, fel cyn-gynlluniwr tref, ddeall ac adnabod diddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas â chais cynllunio.</p>

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	PWYLLGOR SAFONAU
DYDDIAD:	8 Mawrth 2017
TEITL YR ADRODDIAD:	Diweddariad ar bresenoldeb yr Ombwdsman yn Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau ar gyflwyniad yr Ombwdsman a chwestiynau ar 17.10.2016
ADRODDIAD GAN:	Mared Wyn Yaxley, Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol
SWYDDOG CYSWLLT:	Mared Wyn Yaxley, Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol (Ext 2566)

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Ar 17 Hydref 2016 roedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn bresennol yng nghyfarfod Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Cafwyd cyflwyniad gan Nick Bennett, yr Ombwdsmon, ac atebodd restr o gwestiynau gan aelodau'r Fforwm. Roedd Pwyllgor Safonau Ynys Môn wedi gwahodd yr Ombwdsmon i'r cyfarfod gan ei fod wedi nodi y byddai'n fodlon ymweld eto, yn dilyn ei ymweliad â Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn Ynys Môn ar 26 Tachwedd 2014.

- Yn arferol mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd pob Pwyllgor Safonau yn derbyn gwahoddiad, ynghyd â'r Swyddog Monitro. Gan mai Cyngor Sir Ynys Môn oedd yn cynnal y cyfarfod, gwahoddwyd holl aelodau Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn i gyfarfod y Fforwm ar yr achlysur hwn.

Cyfraniad yr Ombwdsman

- Mae copi o gyflwyniad yr Ombwdsman ynghlwm yn **Atodiad 1 (ar gael yn Saesneg yn unig)**.

3(a) Esboniodd yr Ombwdsmon, mewn perthynas â Datrys Anghyfodau yn Lleol y byddai'n croesawu ymestyn hynny i Gyngorau Tref a Chymuned – ond dywedodd na fyddai'n gorfodi hynny; mae'n fater i bob Pwyllgor Safonau benderfynu arno.

3(b) O ran cwynion, esboniodd yr Ombwdsman bod nifer y cwynion am Gyngorau Sir wedi gostwng ond bod nifer y cwynion am Gyngorau Tref a Chymuned wedi cynyddu. Roedd 3 Cyngor Cymuned yn gyfrifol am draean o'r holl gwynion am Gyngorau Tref a Chymuned.

3(c) Esboniodd yr Ombwdsmon bod y prawf dau gam yn parhau i gael ei ddefnyddio a'r bwriad yw cael gwared ag unrhyw gwynion blinderus. Fodd bynnag, mae swyddfa'r Ombwdsmon yn derbyn mwy o gwynion.

Mae'r rhan fwyaf o gyllideb yr Ombwdsman yn cael ei wario ar ymchwiliadau iechyd, ond pwysleisiodd ei fod yn cymryd cwynion o dorri Cod Ymddygiad aelodau etholedig yn ddifrifol iawn pan eu bod yn ymwneud â bwlio, anonestrwydd neu gamddefnyddio grym.

- 3(d)** Credai'r Ombwdsmon bod Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru yn beth buddiol iawn i'w gael rhwng Awdurdodau Gogledd Cymru. Esboniodd y byddai'n hapus iawn i gwrdd â'r Fforwm ar sail fwy rheolaidd os byddai hynny'n ddefnyddiol.
4. Mae copi o'r cwestiynau a ofynnwyd i'r Ombwdsmon, ynghyd â'i atebion, ynghlwm yn **Atodiad 2 (ar gael yn Saesneg yn unig)**.

Materion eraill a drafodwyd

5. Yn dilyn cyfraniad yr Ombwdsman i'r Fforwm, aeth y cyfarfod yn ei flaen, a thrafodwyd materion yn ymwneud â'r Gofrestr o Ddiddordebau Aelodau. (Eitem rhif 3 yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 14.09.2016.)

Penderfynwyd y byddai pob awdurdod yn gwneud ymholiadau gyda'r darparwr gwasanaeth ac adrodd yn ôl i'r Fforwm; mae'n bosib nad yw agwedd sy'n broblem i un awdurdod yn effeithio ar yr awdurdodau eraill. Os yw'r mater yn effeithio ar bawb yna cytunwyd y byddai'n well gweithredu ar y cyd yn hytrach nag ar lefel awdurdodau unigol, os oes modd.

6. Cytunwyd y bydd Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn o hyn ymlaen, ym mis Mawrth / Ebrill a mis Tachwedd. Yr awdurdod sy'n cynnal y cyfarfod fydd yn gyfrifol am wneud y trefniadau.
7. Cyngor Sir Ddinbych fydd yn cynnal y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth neu Ebrill 2017 ac edrychir ar y posibilrwydd o ddarparu hyfforddiant cymodi.

Sylwadau

8. Roedd 21 o gynrychiolwyr yn bresennol yng nghyfarfod y Fforwm, gyda chynrychiolydd o bob un o'r awdurdodau heblaw am un. Yn gyffredinol, roedd yr adborth yn cadarnhau bod y cyfarfod yn un defnyddiol.

ARGYMHELLION

9. (A) Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau nodi cynnwys yr adroddiad hwn, ynghyd â'r atodiadau.
- (B) A yw'r Pwyllgor Safonau'n cytuno i ddsbarthu copi o **Atodiad 2** i Swyddogion Monitro cynghorau eraill yng Ngogledd Cymru?

ATODIAD / APPENDIX

1



North Wales Standards Committee Forum

**Nick Bennett
Ombudsman**

Investigating Complaints
Ymchwilio Cwynion



Improving Services
Gwellhau Gwasanaethau

Local Resolution

- Member v Member complaints should be dealt with by internal dispute resolution procedure
- Extension of this to Community Councils

Investigating Complaints
Ymchwilio Cwynion

Improving Services
Gwellhau Gwasanaethau



Two stage test

- Is there **direct** evidence that a breach actually took place?

If so:

- Is an investigation required in the public interest?

Investigating Complaints
Ymchwilio Cwynion

Improving Services
Gwellhau Gwasanaethau

Testing Public Interest One Year on

- Is an investigation required in the public interest?
 - Public interest factors (non exhaustive)
 - Seriousness of breach
 - Deliberately seeking personal gain
 - Misuse of position of trust causing harm
 - Motivated by discrimination (protected characteristics)
 - Evidence of previous similar behaviour

Investigating Complaints
Ymchwilio Cwynion

Improving Services
Gwellhau Gwasanaethau

Vexatious Complaints!

- “Cllr X refused to shake my hand!”
- “Cllr Y cracked a bad joke in poor taste!”
- “Cllr P tutted and huffed whilst shaking his head!”
- “Cllr M referred to the public gathered in the street as a mob!”
- “Cllr S was clicking his pen on and off in an aggressive manner!”

Investigating Complaints
Ymchwilio Cwynion

Improving Services
Gwellhau Gwasanaethau

What does this mean?

- The Ombudsman will only deal with serious breaches of the Code
- Not the ‘Ombudsman of sense of humour’
- More matters referred back to Standards Committees to investigate
- ‘Mandatory’ Member v Member internal dispute resolution

Investigating Complaints
Ymchwilio Cwynion

Improving Services
Gwellhau Gwasanaethau

Q & A

Investigating Complaints
Ymchwilio Cwynion

Improving Services
Gwellhau Gwasanaethau

ATODIAD 2

FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU HYDREF 17, 2016 CWESTIYNAU I'R OMBWDSMON A'R ATEBION A RODDWDYD

Protocol Datrysiad Lleol. Ydi'r protocol yn ddi-ddannedd oherwydd nad yw'n orfodol ac oherwydd na all osod sancsiynau?

Yn ein barn ni, mae protocolau Datrysiad Lleol wedi bod yn llwyddiant o ran annog ymgysylltu ar lefel leol a sicrhau atebolrwydd am fethiannau lefel isel i gadw at y Cod. Mae'n rhoi cyfle i'r partion ddatrys materion mewn modd amserol a chyfeillgar. Fe ddylai aelodau o awdurdodau lleol fod yn ymwybodol, lle bo datrysiad lleol yn methu, y gellir cyfeirio materion atom ni ar gyfer eu hystyried. Yn ein barn ni, os yw sefyllfa yn golygu bod angen cosb, ni fyddai hyn yn addas ar gyfer datrysiad lleol beth bynnag ac fe ddylid ei gyfeirio atom. Y bwriad yw ei ddefnyddio ar gyfer materion lefel isel, bach neu fân ddigwyddiadau.

Beth yw dyfodol y protocolau datrysiad lleol i gynghorau tref a chymuned? A fyddant yn cael eu cyfyngu i'r rheini sydd â phwerau cymhwysedd / dyletswyddau ychwanegol o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant 2015 ?

Mae Un Llais Cymru wedi rhoi proses model drafft at ei gilydd ac rydym wedi'i chefnogi. Ein safbwynt ni yw y dylai'r broses hon, neu un debyg, fod ar gael i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned.

Gwrthdaro diddordebau i Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau sy'n deillio o Brotocolau Datrysiad Lleol a delio wedyn ag unrhyw atgyfeiriadau dilynol gan yr Ombwdsmon.

Mae hyn yn ein barn ni yn fater o grebwyll proffesiynol. Os oes gwrthdaro, mae'r Rheoliadau 2016¹ newydd yn caniatáu ar gyfer creu pwyllgorau safonau ar y cyd neu gyfeirio achosion at awdurdodau eraill mewn sefyllfaoedd o'r fath.

Mae'n ymddangos bod gostyngiad yn nifer yr achosion a gyflwynir i Banel Dyfarnu Cymru. A ellir priodoli hynny'n uniongyrchol i ddatrysiadau lleol? Ynteu a yw'r Ombwdsmon o'r farn bod cyflwyno'r prawf trothwy budd y cyhoedd wedi effeithio ar nifer yr achosion?

Er ein bod yn cydnabod efallai i'r prawf "budd y cyhoedd" gael dylanwad yn hyn o beth, yr effaith mewn gwirionedd yw ein bod yn ymchwilio i'r achosion difrifol o dorri rheolau. Mae'r ffigyrau ar gyfer atgyfeiriadau i PDC yn y gorffennol wedi codi a gostwng ond maent yn parhau i fod yn ddibynnol ar y cyfan ar natur y cwynion a gawn. Mae cwynion lefel isel na chawsant eu hymchwilio am y rheswm nad oeddent yn bodloni'r prawf 'budd y cyhoedd' yn annhebygol o fod wedi cael eu cyfeirio ar y PDC o dan y cynllun dau gam blaenorol beth bynnag.

A yw'r Ombwdsmon yn ystyried cynnig neu drefnu hyfforddiant cyfryngu ar gyfer Swyddogion Monitro ac aelodau'r gwahanol Bwyllgorau Safonau Monitro yng ngoleuni'r gofyniad i wneud mwy trwy ddatrysiadau lleol? Beth yw rôl y Pwyllgor Safonau mewn perthynas â sylwadau'r Ombwdsmon yn y canllawiau diwygiedig, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016, "fy mod yn cefnogi ymestyn hyn (y broses datrysiad lleol) i gynnwys cynghorau cymuned" (tudalen 8)?

Na, ni fyddai ein hadnoddau yn ymestyn i hyn.

¹ Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau, Ymchwiliadau, Goddefebau ac Atgyfeiriadau) (Cymru) (Fel y'i diwygiwyd) 2016.

Os yw'r Ombwdsmon yn ystyried y dylai'r broses datrysiad lleol gael ei hymestyn i gynnwys cynghorau cymuned hefyd, a fydd yr Ombwdsmon yn darparu Protocol Datrysiad Lleol safonol neu dempled er mwyn sicrhau bod yr holl aelodau'n cael eu trin yn deg ac yn gyson?

Na, ein barn ni yw bod y broses a gynigir gan U.L.L.C yn addas ac fel dewis arall, gallai protocol prif awdurdod ei hun gael ei ddefnyddio a'i addasu i'r diben hwn.

Mae amharodrwydd mewn rhai cynghorau cymuned i symud i'r oes ddigidol. Sut ydych yn gweld rolau'r cynghorau cymuned?

Nid yw hwn yn fater i ni.

Pam mae achosion yn cymryd cymaint o amser i'w datrys o pryd y gwneir y gŵyn?

Mae rhesymau'n amrywio – yn aml iawn mae'n dibynnu ar natur a nifer yr honiadau a wneir, ffynonellau'r dystiolaeth a pha mor hawdd yw'r rhain i gael mynediad iddynt, argaeledd tystion ac Aelodau eu hunain pan fydd angen eu cyfweld. Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella amserlenni. Mae gennym bellach systemau adolygu misol ar gyfer ymchwiliadau i'r Cod Ymddygiad sy'n ceisio sicrhau bod ymchwiliadau yn benodol ac yn amserol.

Y llynedd, 15/16, fe welsom welliant o ran amseroedd cau ymchwiliadau. Roedd 84% o'r ymchwiliadau wedi dod i ben o fewn 9 mis o gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan gafodd dim ond 76% eu cau o fewn yr amserlen hon gyda'r rhai hynny a oedd yn cymryd hyd at flwyddyn i'w cwblhau yn gostwng 9%.

A yw'r Ombwdsmon yn ystyried paratoi Canllawiau Cosb sydd wedi eu teilwra'n benodol i gwrdd ag anghenion a phwerau'r Pwyllgorau Safonau?

Does dim cynllun i ni wneud hyn. Yn gyffredinol, rydym o'r farn bod cosb yn rhywbeth i'r Pwyllgor neu'r Tribiwnlys sy'n ystyried y mater. Mae PDC wedi cyhoeddi canllawiau ar gosbau ac rydym yn weithredol yn cyfeirio'r Pwyllgorau Safonau atynt. Rydym yn teimlo bod y ffactorau sy'n gwaethygu a'r ffactorau sy'n lliniaru yr un mor berthnasol a bod yr arweiniad ar natur cosbau yn addysgiadol. Fel grŵp, efallai yr hoffech ddatblygu hyn eich hun.

Eglurder o gwmpas yr Offeryn Statudol newydd. h.y. atal yr unigolyn o fewn tymor cyfredol y swydd yn unig. Onid yw hyn yn ei wneud yn ddiwerth pan y gall aelod dorri'r Côt mewn ffordd ddifrifol, ac os yw'r amseriad yn iawn, ni fydd unrhyw ganlyniadau? A fyddai'r Ombwdsmon yn disgwyl y byddai Pwyllgorau Safonau neu Dribiwnlysoedd Achos yn dal i fynd yn eu blaen gan roi cerydd yn unig, gan ei gwneud yn glir y byddai'r unigolyn wedi cael ei atal neu ei wahardd pe bai'r gosb honno ar gael? A yw'n gwastraffu arian mewn gwirionedd i ymchwilio, erlyn a dyfarnu ar rywbeth fel hyn ac onid yw'n annheg i aelodau etholedig yn yr ystyr y bydd rhai yn wynebu cael eu hatal oherwydd torri amod yn gynnwys yn eu cyfnod yn y swydd tra bydd eraill yn "dianc yn ddi-gosb"?

Fe wnaethom gefnogi'r gwelliant hwn pan ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â ni gan ei fod yn sicrhau cysondeb rhwng pwerau pwyllgorau safonau a phwerau PDC i wahardd aelodau.

A ydym yn mynd i lawr trywydd model Lloegr? A fyddai'n well i'r Ombwdsmon ganolbwyntio ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, yn hytrach nag ymddygiad aelodau etholedig, o gofio'r adnoddau prin?

Mae darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwysig ond mae'r Cod Ymddygiad yn chwarae rôl hanfodol o ran sicrhau safonau mewn swyddfa gyhoeddus, sy'n hanfodol ar gyfer hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig. Mae hyn yn hynod o bwysig lle gwelwn enghreifftiau o dorri rheolau mewn modd difrifol megis camddefnyddio proses neu sefyllfa.

Rôl y Pwyllgor Safonau a Swyddogion Monitro lleol mewn perthynas â chynghorau tref a chymuned, yn enwedig yng ngoleuni'r canllawiau drafft newydd. A oes disgwyl i Swyddogion Monitro gyflwyno cwynion a / neu a oes disgwyl i Bwyllgorau Safonau a Swyddogion Monitro yn awr ymgymryd â datrysiadau lleol ar lefel Cyngor Tref a Chymuned?

Mae'r arweiniad yn ceisio cadarnhau bod yna opsiynau ar gael i SM pan ddygir sylw at achos posibl o dorri'r Cod a bod y broses ar gyfer cyfeirio cwyn atom ni yn dal i fodoli. O ran datrysiadau lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned, mae'n rhywbeth sydd angen ystyriaeth ofalus. Mae cynnig Un Llais Cymru yn golygu bod y Clerc yn chwarae rhan hanfodol yn y broses.

A oes yna, neu a oes yna fwriad i gael, llyfrgell archif o benderfyniadau pwyllgorau safonau, er cysondeb, yn hytrach na dim ond penderfyniadau'r Tribiwnlysoedd Achos gan Banel Ddyfarnu Cymru.

Mae ein coflyfrau yn darparu dolen i benderfyniadau sy'n cael eu cymryd gan PS a PDC. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar gronfa ddata o benderfyniadau hanesyddol sy'n dyddio'n ôl i gyfnod cyn y coflyfrau at ddefnydd mewnol a gallem ystyried a oes lle i ymestyn hyn i roi mynediad i'r cyhoedd.

Mae'n ofyniad statudol i Gynghorau Tref a Chymuned gael gwefannau ac i gyhoeddi eu cofrestrau o ddiddordebau ar y gwefannau hynny. Pa gamau fydd yr Ombwdsmon yn eu cymryd os bydd Cynghorau Tref a Chymuned yn methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn?

Byddai methiant ar ran cyngor tref a chymuned i wneud hyn fel arfer yn dod o dan yr awdurdodaeth sydd gennym ni mewn perthynas â Chamweinyddu. Petai ymchwiliad yn cael ei gynnal i gŵyn a gyflwynwyd yn y ffordd gywir yn dod i'r casgliad nad oedd hyn yn digwydd, byddai modd gwneud argymhellion. Petai hyn yn dod i'r fei yng nghyd-destun ymchwiliad i faterion yn ymwneud a'r cod, byddai modd i ni gyfeirio at hyn yn yr adroddiad ond ni fyddai modd gwneud argymhelliad gorfodol. Fodd bynnag, mae gan PDC y gallu i wneud argymhellion petai hyn yn codi fel mater allweddol yn ystod tribiwnlys.

Beth yw'r effaith ar amserlenni swyddfa'r Ombwdsmon yn sgil derbyn / ymchwilio i lai o achosion ar hyn o bryd?

Mae'r dadansoddiad o ffigyrau ers cyflwyno'r prawf PI yn awgrymu bod ymchwiliadau'n cael eu cwblhau yn gynt gyda 84% o fewn 9 mis yn 15/16 o gymharu â 76% yn 14/15.

Mae'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r sail newydd dros gael gollyngiad [paragraff 4(3) Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygiad) 2016] yn nodi y gellir caniatáu gollyngiad "os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod yn briodol, fel arall, i ganiatáu gollyngiad".

Fodd bynnag, mae'r canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd gan swyddfa'r Ombwdsmon yn rhoi manylion y gellir caniatáu gollyngiad "os yw'n briodol dan yr holl amgylchiadau, lle nad oedd fel arall yn bosib, i wneud addasiadau rhesymol i ddarparu ar gyfer anabled person."

Cadarnhewch os gwelwch yn dda mai'r "anabled" yw hwn a grëwyd gan y diddordeb sy'n rhagfarnu; ymddengys bod y ddeddfwriaeth yn mynd yn bellach na'r hyn sy'n cael ei gynnwys yn y canllawiau?

Ein dealltwriaeth ni, sy'n seiliedig ar wybodaeth ymgynghori gan Lywodraeth Cymru, yw bod y sail newydd ar gyfer caniatâd arbennig yn seiliedig ar ateb ymarferol i "anabled" aelod penodol os ydyw er enghraifft yn anodd iddynt adael ystafell neu siambr pan fydd mater y mae ganddynt diddordeb ynddo, p'un a yw'r diddordeb hwnnw'n un personol neu'n un sy'n rhagfarnu, yn cael ei drafod. Mae'r canllawiau wedi cael eu hysgrifennu er mwyn adlewyrchu hyn.

O gofio'r sylwadau yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan eich swyddfa yn awgrymu y gallai gweithdrefnau datrysiad lleol helpu i leihau nifer y cwynion a dderbynnir gan gynghorwyr tref a chymuned, sut oeddech chi wedi rhagweld y byddai'r adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer gwneud hynny?

[Mae'r paragraff o'r canllawiau fel a ganlyn –

"Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ar draws Cymru wedi gweithredu gweithdrefnau datrysiad lleol i ddelio â chwynion lefel isel sy'n cael eu gwneud gan aelod yn erbyn cyd-aelod. Mae'r trefniadau hyn yn effeithiol o ran datrys llawer o'r mathau hyn o gwynion. 'Rwy'n cefnogi ymestyn hyn i gynnwys cynghorau cymuned. "]

Ni fyddai hyn yn fater i ni.

Er bod yr adroddiad blynyddol i'w groesawu, a fyddai modd cynnwys mwy o ddadansoddiad o'r tueddiadau ac unrhyw wersi y gellid eu dysgu o'r ystadegau, e.e. a oes cynnydd yn nifer yr achosion o ddiffyg parch neu ostyngiad yn nifer yr honiadau o fethiant i ddatgan diddordeb, er mwyn helpu i ddatgelu unrhyw waith y gall bod Pwyllgorau Safonau angen ei wneud yn y dyfodol neu i ddangos llwyddiant y gwaith sydd eisoes wedi cael ei wneud.

Rydym ar hyn o bryd yn ymchwilio i ffyrdd o gywain gwybodaeth ac adrodd mewn ffordd fwy cynhwysfawr ac ystyrlon. Gobeithir y byddwn yn gallu darparu gwell dadansoddiad yn y dyfodol ac rydym yn gwerthfawrogi bod angen gwneud hyn.

Mae pryder y gall y cyhoedd golli hyder o ran gorfodi'r Cod Ymddygiad os ydynt yn teimlo bod yr Ombwdsmon wedi penderfynu nad yw cwynion, sy'n ddilys yn eu barn nhw, yn deilwng o ymchwiliad. A fyddai'r Ombwdsmon yn ystyried cyfeirio, ar gyfer ymchwiliad lleol, yr achosion hynny y mae wedi penderfynu peidio ag ymchwilio iddynt?

Rydym o'r farn y gallai aelodau o'r cyhoedd golli hyder petaem yn ymchwilio i gwynion dibwys a dyma hefyd y rheswm y tu ôl i'r prawf budd y cyhoedd. Mae gennym y pwerau i ddod ag ymchwiliad i ben ac i gyfeirio hyn ar gyfer ymchwiliad lleol; mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi'i wneud yn y gorffennol ond ychydig iawn sydd wedi manteisio ar y cyfle a gwelwyd peth amharodrwydd ar ran Swyddogion Monitro. Fodd bynnag, mae'r gallu i wneud hyn yn dal i fod yn berthnasol a gallem wneud hyn petaem yn ystyried bod hynny'n briodol.

Ydi'r Ombwdsmon yn ystyried y byddai gosod safonau gofynnol a hyfforddiant gorfodol ar gyfer Clercod Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned yn cynorthwyo i gynnal safonau uchel o ymddygiad a gweithrediad y Gweithdrefnau Datrysiad Lleol yn y Cynghorau hynny?

Ydi, tra rydym yn cytuno y byddai hyfforddiant yn y maes hwn yn fanteisiol, yn enwedig os yw Clercod yn gallu chwarae rôl mewn datrysiadau lleol, nid yw'n rhywbeth y byddem ni fel sefydliad yn gallu darparu adnoddau ar ei gyfer. Efallai ei fod yn rhywbeth y byddai sefydliadau fel Un Llais Cymru neu Gymdeithas y Clercod Lleol yn dymuno ei wneud.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL	
CYFARFOD:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	8 Mawrth 2017
TEITL YR ADRODDIAD:	Mabwysiadu'r côd ymddygiad diwygiedig - diweddariad
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi diweddariad i'r aelodau am fabwysiadu côd ymddygiad diwygiedig
ADRODDIAD GAN:	Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol
SWYDDOG CYSWLLT	Mared Wyn Yaxley; mwyics@ynysmon.gov.uk ; 01248 752566

1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

Nodwyd yn yr adroddiad 'Mabwysiadu Côd Ymddygiad diwygiedig', a drafodwyd fel eitem 11 ar y Rhaglen ar gyfer Cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 14.09.2016, fod angen i bob awdurdod perthnasol fabwysiadu Côd diwygiedig erbyn 26 Gorffennaf 2016.

Yn atodiad 3 i'r adroddiad yma, roedd rhestr o statws mabwysiadu'r Côd gan y Cynghorau tref a chymuned. Roedd 17 heb ymateb.

Nodwyd ar lafar fod 12 cyngor tref a chymuned wedi bod mewn cysylltiad rhwng yr adroddiad yn cael ei pharatoi a'r mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau.

2. DIWEDDARIAD

Penderfynodd y Pwyllgor safonau, ar gyfer y cynghorau hynny nad oedd wedi ymateb, y dylid

- Cysylltu efo eu clerc unwaith eto gan ofyn am ymateb, a
- Chysylltu efo aelodau etholedig Cyngor Sir Ynys Môn sydd yn cynrhychioli'r ardal ar gyfer y Cynghorau hynny nad oedd wedi ymateb gan ofyn iddynt godi'r mater yma yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned ac adrodd yn ôl.

Atodaf, yn **Atodiad 1**, i'r adroddiad yma fersiwn B o'r tabl a ffurfiodd atodiad 3 i'r adroddiad gwreiddiol. Mae hwn yn dangos y sefyllfa bresennol.

Roedd 5 Cyngor nad oedd wedi bod mewn cysylltiad erbyn 14/09/2016. 'Rydym yn parhau i aros am ymateb neu fanylion pellach gan:

- Cyngor Cymdeithas Bodorgan
- Cyngor Cymdeithas Llangristiolus
- Cyngor Cymdeithas Rhoscolyn

3. ARGYMHELLIAD

A. Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

B. I gadarnhau sut y mae'r Pwyllgor safonau yn dymuno delio gyda'r cynghorau sydd ddim wedi ymateb neu wedi ymateb ond heb gadarnhau fod y côd diwygiedig wedi ei fabwysiadu.

Atodiad 1

Cyngor Tref a Chymuned / Town and Community Council	Ymateb wedi ei dderbyn / Response Received	Dyddiad mabwysiadu'r Côd / Date Code adopted	
Cyngor Cymdeithas Aberffraw Community Council	Do / Yes	20/7/2016	
Cyngor Tref Amlwch Town Council	Do / Yes	28/6/2016	
Cyngor Tref Biwmares / Beaumaris Town Council	Do / Yes	6/6/2016	
Cyngor Cymdeithas Bodedern Community Council	<i>Do / Yes</i>	<i>27/6/2016</i>	
Cyngor Cymdeithas Bodffordd Community Council	<i>Do / Yes</i>	<i>21/6/2016</i>	
Cyngor Cymdeithas Bodorgan Community Council	Na / No		*
Cyngor Cymdeithas Bryngwran Community Council	Do / Yes	8/6/2016	
Cyngor Tref Caergybi / Holyhead Town Council	Do / Yes	9/5/2016	
Cyngor Bro Cwm Cadnant Community Council	<i>Do / Yes</i>	<i>13/07/2016</i>	
Cyngor Bro Cylch y Garn Community Council	Do / Yes	27/6/2016	
Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council	Do / Yes	20/6/2016	
Cyngor Cymdeithas Llanddaniel-Fab Community Council	Do / Yes	20/6/2016	
Cyngor Cymdeithas Llanddona Community Council	Do / Yes	Dyddiad i'w gadarnhau / Date to be confirmed	
Cyngor Cymdeithas Llanddyfnan Community Council	Do / Yes	21/6/2016	

Cyngor Tref a Chymuned / Town and Community Council	Ymateb wedi ei dderbyn / Response Received	Dyddiad mabwysiadu'r Côd / Date Code adopted	
Cyngor Cymdeithas Llaneilian Community Council	Do / Yes	9/6/2016	
Cyngor Cymuned Llanerchymedd Community Council	<i>Do / Yes</i>	<i>15/9/2016</i>	
Cyngor Cymuned Llaneugrad Community Council	<i>Do / Yes</i>	<i>25/7/2016</i>	
Cyngor Cymdeithas Llanfachraeth Community Council	<i>Do / Yes</i>	<i>26/7/2016</i>	
Cyngor Cymdeithas Llanfaelog Community Council	Do / Yes	22/6/2016	
Cyngor Cymdeithas Llanfaethlu Community Council	<i>Do / Yes</i>	<i>04/7/2016</i>	
Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf Community Council	Do / Yes	Mawrth 2016 / March 2016	
Cyngor Cymdeithas Llanfair yn Neubwll Community Council	Do / Yes	17/5/2016	
Cyngor Cymuned Llanfairpwll Community Council	<i>Do / Yes</i>	<i>26/7/2016</i>	
Cyngor Cymdeithas Llanfihangelesceifiog Community Council	<i>Do / Yes</i>	<i>26/7/2016</i>	
Cyngor Tref Llangefni Town Council	<i>Do / Yes</i>	<i>3/10/2016</i>	
Cyngor Cymdeithas Llangoed a Phenmon / Llangoed and Penmon Community Council	Do / Yes	<i>1/6/2016</i>	
Cyngor Cymdeithas Llangristiolus Community Council	Na / No	Dim cadarnhâd – y mater i'w drafod. / No confirmation – matter to be discussed.	*

Cyngor Tref a Chymuned / Town and Community Council	Ymateb wedi ei dderbyn / Response Received	Dyddiad mabwysiadu'r Côd / Date Code adopted	
Cyngor Cymdeithas Llanidan Community Council	Do / Yes	31/5/2016	
Cyngor Cymdeithas Mechell Community Council	<i>Do / Yes</i>	<i>13/6/2016</i>	
Cyngor Cymuned Moelfre Community Council	<i>Do / Yes</i>	<i>6/6/2016</i>	
Cyngor Cymuned Penmynydd a Star / Penmynydd and Star Community Council	Do / Yes	1/6/2016	
Cyngor Cymdeithas Pentraeth Community Council	Do / Yes	27/4/2016	
Cyngor Tref Porthaethwy / Menai Bridge Town Council	Do / Yes	21/3/2016	
Cyngor Cymdeithas Rhoscolyn Community Council	Na / No		*
Cyngor Cymuned Rhosybol Community Council	<i>Do / Yes</i>	<i>6/6/2016</i>	
Cyngor Rhosyr Council	<i>Do / Yes</i>	<i>27/6/2016</i>	
Cyngor Bro Trearddur Community Council	Do / Yes	28/6/2016	
Cyngor Cymdeithas Tref Alaw Community Council	Do / Yes	14/6/2016	
Cyngor Bro Trewalchmai Community Council	Do / Yes	4/4/2016	
Cyngor Cymuned Y Fali / Valley Community Council	Do / Yes	20/7/2016	

CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	8 Mawrth 2017
TEITL YR ADRODDIAD:	Diweddarau'r Pwyllgor Safonau ar y Cyflwyniad a roddwyd ar ran y Pwyllgor yn Fforwm Cyswllt y Cynghorau Tref a Chymuned
PWRPAS YR ADRODDIAD:	I adrodd yn ôl am gynnwys y cyflwyniad a roddwyd ar 24/11/2016
ADRODDIAD GAN:	Cyfreithiwr - Llywodraethu Corfforaethol
SWYDDOG CYSWLLT:	Mared Wyn Yaxley, mwyics@ynysmon.gov.uk 01248 752566

A. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Ar 24 Tachwedd 2016 rhoddodd Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ac Islwyn Jones, Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, gyflwyniad i aelodau a chlercod y Cynghorau Tref a Chymuned yn Ynys Môn yn 'Fforwm Cyswllt y Cynghorau Tref a Chymuned'. Cyflwyniad oedd hwn ar 'Faterion yn codi o'r Pwyllgor Safonau'. 'Roedd Mared Yaxley hefyd yn bresennol.

B. CYNWYS Y CYFLWYNIAD

Gweler **Atodiad 1**, sef copi o'r sleids a ddefnyddiwyd ar gyfer gwneud y cyflwyniad. Deallir fod copi o'r cyflwyniad yn cael ei anfon gan Glerc y Fforwm i bob aelod o'r Fforwm yn fuan wedi'r cyfarfod.

Ynghylch pob mater:

1. Mabwysiadu'r Côt Ymddygiad diwygiedig

Eglurwyd fod gofyn i bob cyngor tref a chymuned i fabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig, a wedyn i hysbysebu'r ffaith eu bod wedi gwneud hyn mewn papur newydd lleol ac anfon copi i'r Ombwdsmon.

Eglurwyd y dylai unrhyw Gyngor Tref neu Gymuned oedd eisiau copi o'r Cod diwygiedig gysylltu efo Mared Yaxley. Nid oes cais wedi ei dderbyn yn dilyn y Fforwm.

2. Canllaw yr Ombwdsmon

Dywedwyd y byddai copi o'r canllaw diwygiedig arbennig ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned yn cael ei ddosbarthu gan y Pwyllgor Safonau maes o law. Anfonwyd hwn, yn ogystal â nodyn briffio ar y newidiadau, i Glerc y Cynghorau Cymuned ar 06/01/2017. Gofynnwyd i Glerc ddod â'r dogfennau yma i sylw'r Aelodau drwy ei gynnwys fel eitem ar y Rhaglen.

3. Gofynion ar gyfer y cofrestrau diddordeb

Eglurwyd fod y gofynion ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yn wahanool ac yn drymach na'r hyn sydd ei angen o fewn y Cynghorau Tref a Chymuned.

Dywedwyd y byddai nodyn briffio yn cael ei ddsbarthu gan y Pwyllgor Safonau i'r Clercod yn egluro'r gofynion. Anfonwyd hwn i'r Clercod ar 14/12/2016.

4. Adolygiad o Gofrestrau Diddordeb

Soniwyd fod y Pwyllgor Safonau wedi dechrau ar ei adolygiad o sampl o'r Cofrestrau a gedwir gan y Cynghorau Tref a Chymuned. Y bwriad ydi edrych ar arfer dda er mwyn ei rannu gydag eraill. Beth bynnag y canfyddiad, eglurwyd na fyddai'r un Cyngor yn cael ei enwi o fewn yr adroddiad terfynol y bwriedir ei dosbarthu rhwng yr holl Gynghorau Cymuned ym Môn.

5. Cyflwyniad yr Ombwdsmon

Soniwyd am ymweliad yr Ombwdsmon efo Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a'r cyflwyniad a roddwyd ganddo. Eglurwyd mai cyffredinol oedd ei gyflwyniad a chafwyd tri prif fater y teimlid y dylai gael eu cyfleu i'r Cynghorau Tref a Chymuned, fel a nodir ar y sleids.

6. Panel Dyfarnu Cymru

Eglurwyd swyddogaeth Panel Dyfarnu Cymru a'i fod yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar y wefan. Nodir fod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn derbyn crynodeb o'r penderfyniadau a wnaethpwyd yn y 6 mis blaenorol yn eu cyfarfodydd ffurfiol. O hyn ymlaen bwriedir anfon copi o'r crynodeb yma i Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned hefyd. Gofynnwyd i'r Clercod ddod â'r nodiadau yma i sylw eu haelodau drwy ei gynnwys fel eitem ar y Rhaglen pan anfonir yr Adroddiad wedi cyfarfodydd misoedd Mawrth a Medi y Pwyllgor Safonau.

C. ARGYMHELLIAD

1. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Safonau nodi cynnwys y Cyflwyniad a'r diweddariad a roddir ynghylch y materion o fewn yr adroddiad yma.

Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned
Town and Community Councils Forum

<p style="text-align: center;">Materion yn codi o'r Pwyllgor Safonau</p>	<p style="text-align: center;">Matters arising from the Standards Committee</p>
---	--

24.11.2016

Cynrychiolwyr Representatives

<p style="text-align: center;">Michael Wilson Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (Aelod Annibynnol)</p>	<p style="text-align: center;">Standards Committee Chair (Independent Member)</p>
<p style="text-align: center;">Islwyn Jones Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau (Aelod Annibynnol)</p>	<p style="text-align: center;">Standards Committee Vice Chair (Independent Member)</p>
<p style="text-align: center;">Mared Yaxley Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol Solicitor – Corporate Governance</p>	

<p style="text-align: center;">Materion yn codi o'r Pwyllgor Safonau</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mabwysiadu'r Cód Ymddygiad diwygiedig 2. Canllaw diwygiedig yr Ombudsmon ar y Cód Ymddygiad 3. Gofynion ar gyfer cadw cofrestrau diddordeb y Cynghorau Tref a Chymuned (C/T&Ch) 4. Adolygiad o gofrestrau diddordeb y Cynghorau Tref a Chymuned (C/T&Ch) 5. Cyflwyniad yr Ombudsmon i Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru 6. Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru 	<p style="text-align: center;">Matters arising from the Standards Committee</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Adoption of amended Code of Conduct 2. Ombudsman's amended Guidance to the Code of Conduct 3. Requirements for maintaining Town and Community Councils' (T&C/C) registers of interests 4. Review of the Town and Community Councils' (T&C/C) registers of interests 5. Ombudsman's presentation at the North Wales Standards Committee Forum 6. Decisions of the Adjudication Panel for Wales
---	--

<p style="text-align: center;">1. Mabwysiadu'r Cód Ymddygiad diwygiedig</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cód Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygiad) 2016 – daeth i rym 1.4.2016 • Camau angenrheidiol i G/T&Ch : <ol style="list-style-type: none"> 1. Mabwysiadu'r Cód Ymddygiad diwygiedig erbyn 26 Gorffennaf 2. Cyhoeddi hysbyseb mewn papur newydd yn yr ardal leol 3. Anfon copi o'r Cód diwygiedig i Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 	<p style="text-align: center;">1. Adoption of amended Code of Conduct</p> <ul style="list-style-type: none"> • The Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) (Amendment) Order 2016 - came into force 1.4.2016. • Steps T&C/C must take: <ol style="list-style-type: none"> 1. Adopt the amended Code of Conduct by 26 July 2016 2. Publication of a notice in a local newspaper 3. Send a copy of the revised Code to the Public Services Ombudsman for Wales
--	---

<p style="text-align: center;">2. Canllaw yr Ombudsmon</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canllaw diwygiedig ar gyfer cynghorwyr cymuned wedi ei gyhoeddi gan Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar y Cód Ymddygiad diwygiedig • Bydd linc i'r Canllaw ynghyd â Nodyn Briffio yn cael ei ddsbarthu i Glercod y C.T&Ch. → Eitem ar gyfer eich Rhaglen? 	<p style="text-align: center;">2. Ombudsman's Guidance</p> <ul style="list-style-type: none"> • New Guidance issued for community councillors by Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) on the revised Code of Conduct • A link to the New Guidance together with a Briefing Note will be sent to Clerks of the T&C/C. → Item for your Agenda?
---	---

<p style="text-align: center;">3. Gofynion ar gyfer y cofrestrau diddordeb</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2015 • Bydd nodyn briffio yn cael ei anfon i Glercod y C/T&Ch → Eitem ar gyfer eich Rhaglen? • Cynghorwyr sy'n gyfrifol am ddatgan diddordeb. • Clerc sy'n gyfrifol am gadw cofrestr o ddatganiadau ysgrifenedig a wneir gan gynghorwyr mewn cyfarfodydd ffurfiol. Y ffurflenni datganiad yma gyda'i gilydd ydi'r 'Gofrestr'. • Rhaid i'r Gofrestr fod ar gael ar wefan y C.T/Ch. 	<p style="text-align: center;">3. Requirements for the registers of interests</p> <ul style="list-style-type: none"> • The Local Government (Democracy) (Wales) Act 2015 • Briefing Note will be sent to all T&C/C Clerks → Item for your Agenda? • Councillor responsible for declaring an interest. • Clerk responsible for maintaining a register of the written declarations made by councillors at each formal meeting. These forms collectively are the 'Register'. • Register must be available to view on T&C/C website.
--	--

4. Adolygiad o Gofrestrau Diddordeb

Adolygiad o sampl o Gofrestrau dros y misoedd nesaf

- Edrych am arferion da er mwyn eu rhannu gydag eraill
- Hefyd, cynnig gwelliannau, er mwyn codi safonau'r holl Gynghorau

Ni fydd Cynghorau yn cael eu henwi yn unigol mewn unrhyw adroddiad.

Pwrpas: er mwyn cynnig cymorth i'r C/T&Ch i gynnal a gwella'r trefniadau presenol

4. Review of Registers of interests

Review of sample of Registers over the next few months

- Looking for good practice so they can be shared with others
- Also, in order to offer improvements, so that standards can be raised in all Councils

Councils will not be individually named in any report.

Purpose: to offer assistance to the T&C/C in order to maintain and improve on the current arrangements

5. Cyflwyniad yr Ombwdsmon

1. Prawf dau gam:

- Oes prawf uniongyrchol fod y Còd wedi ei dorri?
- Ac os oes, ydi hi er budd y cyhoedd i ymchwiliad gael ei gynnal?

Dim ond cwynion difrifol gaiff eu hymchwilio gan yr OGCC

2. Niferoedd Cwynion

3. Datrysiaid Lleol – disgwyliad efo cwynion lefel isel

5. Ombudsman's Presentation

1. Two stage test:

- Is there direct evidence that a breach actually took place?
- If so, is an investigation required in the public interest?

PSOW will only investigate serious complaints

2. Complaints Numbers

3. Local Resolution – expectation for low level complaints

6. Panel Dyfarnu Cymru

PDC / APW

- Cyhoeddi pob penderfyniad ar y wefan
<http://apw.gov.wales/?lang=cy>

- Bydd diweddariad yn cael ei anfon i Glercody C/T&Ch yn dilyn Pwyllgor Safonau Medi a Mawrth
→ Eitem ar gyfer eich Rhaglen?

6. Adjudication Panel for Wales

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

- All decisions published on website
<http://apw.gov.wales/?lang=en>

- Update will be sent to the T&C/C following each Standards Committee meeting in September and March
→ Item for your Agenda?

Unrhyw gwestiynnau?

Any questions?

Diolch yn Fawr Thank you

CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL	
CYFARFOD:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	8 Mawrth 2017
TEITL YR ADRODDIAD:	Diweddariad am ymatebion y Cynghorau Tref a Chymuned i'r cais am wybodaeth ynghylch y Cofrestrau Diddordeb
PWRPAS YR ADRODDIAD:	I roi diweddariad ymhellach i eitem 13 ar y rhaglen yng nghyfarfod 14 Medi 2016
ADRODDIAD GAN:	Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol
SWYDDOG CYSWLLT	Mared Wyn Yaxley; mwyys@ynysmon.gov.uk; 01248 752566

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Nodwyd yn yr Adroddiad 'Adolygiad y Pwyllgor Safonau o'r Cofrestrau Diddordeb a gedwir gan y Cynghorau Tref a Chymuned' (Eitem 13 ar y Rhaglen) a gyflwynwyd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 14 Medi 2016 nad oedd ymateb wedi ei dderbyn gan ambell Gyngor.

Roedd yr ohebiaeth wreiddiol wedi ei hanfon at Glercod y 40 Cyngor Tref a Chymuned yn holi a yw'r Gofrestr/ cofnodion ar gyfer y cyfnod o fis Mai 2013 ar gael ar eu gwefan neu ar bapur yn unig.

Ar gyfer y Cynghorau hynny nad oedd wedi ymateb, penderfynodd y Pwyllgor Safonau y dylid

- cysylltu efo'r Clerc unwaith eto gan ofyn am ymateb, a
- chysylltu efo aelodau etholedig Cyngor Sir Ynys Môn sydd yn cynrychioli'r ardal ar gyfer y Cynghorau hynny nad oedd wedi ymateb gan ofyn iddynt godi'r mater yma yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned ac adrodd yn ôl.

2. YMATEBION- ERBYN 14/09/2016

Yn adran (B), Atodiad 1 i'r Adroddiad 14/09/2016 a nodir uchod, rhestrir 7 Gyngor Cymuned nad oedd wedi ymateb.

Rhwng yr adroddiad yn cael ei pharatoi a'r cyfarfod ar 14/09/2016 'roedd 2 Gyngor wedi bod mewn cysylltiad a rhoddwyd diweddariad ar lafar fel a nodir isod:-

Enw'r Cyngor	Ymateb	Dyddiad Ymateb
Cyngor Bro Cwm Cadnant	Ar bapur, yn aros i ddiweddarau'r wefan	08/09/2016
Cyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog	Ar bapur yn unig	08/09/2016

3. YMATEBION - ERS 14/09/2016

Ar 29/09/2016 anfonwyd gohebiaeth i Glercod y Cynghorau nad oedd wedi ymateb erbyn cyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 14/09/2016.

Anfonwyd gohebiaeth i Aelodau etholedig Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer yr ardal ar 29/09/2016 hefyd.

Mae copiau o'r llythyrau sydd wedi eu hanfon ar ran y Pwyllgor Safonau i'r Cynghorau Cymuned ar y mater yma wedi eu hatodi fel **Atodiad 1**.

Mae ymatebion wedi eu derbyn gan y 5 Cyngor Cymuned erbyn hyn:

Enw'r Cyngor	Ymateb	Dyddiad Ymateb
Cyngor Cymuned Llanfairpwll	Ar bapur yn unig	05/10/2016
Cyngor Cymuned Mechell	Ar bapur yn uing ar hyn o bryd; mae'r wefan yn cael ei datblygu erbyn y Nadolig	30/09/2016
Cyngor Cymdeithas Rhoscolyn	Ar bapur yn unig; cofnodion ar y wê hefyd	22/09/2016
Cyngor Cymuned Rhosybol	Ar bapur yn unig; cofnodion ar y wê hefyd	04/10/2016
Cyngor Cymdeithas Tref Alaw	Mae ganddynt gofrestr. Dim manylion os mai ar bapur neu ar y wê, neu'r ddau	20/10/2016

Mae tabl o'r holl ymatebion wedi ei atodi i'r adroddiad yma fel **Atodiad 2**.

4. GOFYNIAD STATUDOL

Rhoddir manylion llawn am y gofynion statudol yn Adroddiad 'Cynghorau Cymuned dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2015', Eitem 12 ar y Rhaglen ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 14/09/2016

Yn gryno,

- (i) Mae Cynghorwyr yn gyfrifol am ddatgelu diddordeb personol neu ragfarnus ar lafar mewn cyfarfod. Os bydd Cynghorydd yn datgelu diddordeb personol/rhagfarnus am y tro cyntaf, rhaid rhoi cadarnhad ysgrifenedig i'r Clerc cyn diwedd y cyfarfod.
- (ii) Mae Clerc angen cofnodi diddordebau sy'n cael eu datgan am y tro cyntaf mewn cyfarfod yn y Gofrestr o ddiddordebau.

Does dim ffurf benodol ar gyfer Cofrestr ond rhaid sicrhau fod y Gofrestr ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ar bob adeg rhesymol ac yn electronig ar y wefan.

5. ARGYMHELLIAD

- A. Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r ymatebion sydd wedi eu derbyn gan y Cynghorau Cymuned.
- B. I gadarnhau sut y mae'r Pwyllgor Safonau yn dymuno delio gyda'r ymatebion sydd wedi eu derbyn sy'n dweud fod y Gofrestr ddim ond ar gael ar bapur yn unig, sydd ddim yn cydymffurfio gyda'r gofyn statudol.
 - a. A ddylid ysgrifennu at y Cynghorau hynny sydd ddim yn cyhoeddi'r Gofrestr ar wefan i'w hatgoffa o ymateb yr Ombwdsmon yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ac y bydd y Pwyllgor Safonau yn gofyn am ddiweddariad pellach, gyda adroddiad pellach yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mawrth 2018?

ATODIAD / APPENDIX

1

Mared W. Yaxley

From: Mared W. Yaxley
Sent: 27 June 2016 11:15
To:

Subject: ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU O DDIDDORDEBAU'R CYNGHORWYR / REVIEW OF THE REGISTER OF MEMBERS' INTERESTS

Fel y gwyddoch, mae gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir rôl statudol i gefnogi Cyngorwyr i gydymffurfio gyda'u Cód Ymddygiad.

Ar lefel Cyngor Sir, mae hyn wedi cynnwys adolygiad blynyddol o'r Cofrestrau o Ddiddordebau'r Cyngorwyr.

Yn ystod 2016, mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu cynnal adolygiad tebyg o ddiddordebau a ddatganwyd gan Gyngorwyr Cymuned. Bydd y Pwyllgor yn edrych ar sampl ohonynt yn unig.

I'n cynorthwyo gyda'r broses hon, rhaid i ni sefydlu a yw eich cofnodiadau ar gael ar eich gwefan neu ar ffurf papur yn unig. Wrth gwrs, os ydynt ar gael ar eich gwefan, bydd modd cynnal yr ymarfer hwn o bell, ond os ydynt ar gael ar ffurf papur yn unig, efallai y byddwn yn cysylltu gyda chi i drefnu dyddiad ac amser cyfleus i ddod atoch i'ch eiddo i adolygu'r cofnodiadau perthnasol. Nid ydym ond â diddordeb yn eich cofnodiadau ers Mai 2013 a byddwn yn dymuno gweld datganiadau o ddiddordeb, rhaglenni a chofnodion.

I hwyluso'r broses hon, byddwn yn ddiolchgar petaech yn gallu cadarnhau a yw'r dogfennau hyn ar gael ar eich gwefan neu ar bapur yn unig.

Byddwn yn ddiolchgar petaech yn ymateb erbyn diwedd Gorffennaf 2016.

Diolch o galon

As you know, the County Council's Standards Committee has a statutory role in supporting Councillors to comply with their Code of Conduct.

At County Council level, this has involved an annual review of the Registers of Councillors' Interests.

During 2016, though, the Standards Committee has decided to carry out a similar review in relation to Community Councillors' declared interests. The Committee will undertake sample testing only.

To assist us in this process we need to establish whether your records are available on your website, or on paper format only. Clearly, if they are available on your website then we will undertake the exercise remotely, but if they are only available on paper then we may contact you to arrange a mutually convenient date and time to conduct a review of the relevant records at your premises. We are only interested in the period since May 2013 and wish to see declarations of interests, agendas and minutes.


To facilitate this process we would be grateful if you could please confirm whether these documents are available on your website, or on paper format only.

We would be grateful for your reply by the end of July 2016.

Many thanks

Michael Wilson
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau / Chair of the Standards Committee

Mared Wyn Yaxley
Cyfreithiwr / Solicitor
☎ 01248 752566



CC-017471-AP/319472

Mared W. Yaxley

From: Mared W. Yaxley
Sent: 15 July 2016 12:33
To:

Subject: RE: ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU O DDIDDORDEBAU'R CYNGHORWYR / REVIEW OF THE REGISTER OF MEMBERS' INTERESTS

Prynhawn da,

Anfonaf nodyn i'ch atgoffa ynghylch y neges isod. 'Rwyf eisioes wedi derbyn rhai ymatebion. Edrychaf ymlaen i glywed gan y gweddill erbyn diwedd y mis, os yn bosib, os gwelwch yn dda.

Gyda diolch am eich cydweithrediad.

Good afternoon,

I send a reminder regarding the below email. I have already received some replies. I look forward to hearing from the others before the end of the month, if possible, please.

Many thanks for your co-operation.

Mared Wyn Yaxley
Cyfreithiwr / Solicitor
☎ 01248 752566



Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

From: Mared W. Yaxley
Sent: 27 June 2016 11:15
To:

Subject: ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU O DDIDDORDEBAU'R CYNGHORWYR / REVIEW OF THE REGISTER OF MEMBERS' INTERESTS

Fel y gwyddoch, mae gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir rôl statudol i gefnogi Cynghorwyr i gydymffurfio gyda'u Côt Ymddygiad.

Ar lefel Cyngor Sir, mae hyn wedi cynnwys adolygiad blynyddol o'r Cofrestrau o Ddiddordebau'r Cynghorwyr.

Yn ystod 2016, mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu cynnal adolygiad tebyg o ddiddordebau a ddatganwyd gan Gynghorwyr Cymuned. Bydd y Pwyllgor yn edrych ar sampl ohonynt yn unig.

I'n cynorthwyo gyda'r broses hon, rhaid i ni sefydlu a yw eich cofnodiadau ar gael ar eich gwefan neu ar ffurf papur yn unig. Wrth gwrs, os ydynt ar gael ar eich gwefan, bydd modd cynnal yr ymarfer hwn o bell, ond os ydynt ar gael ar ffurf papur yn unig, efallai y byddwn yn cysylltu gyda chi i drefnu dyddiad ac amser cyfleus i ddod atoch i'ch eiddo i adolygu'r cofnodiadau perthnasol. Nid ydym ond â diddordeb yn eich cofnodiadau ers Mai 2013 a byddwn yn dymuno gweld datganiadau o ddiddordeb, rhaglenni a chofnodion.

I hwyluso'r broses hon, byddwn yn ddiolchgar petaech yn gallu cadarnhau a yw'r dogfennau hyn ar gael ar eich gwefan neu ar bapur yn unig.

Byddwn yn ddiolchgar petaech yn ymateb erbyn diwedd Gorffennaf 2016.

Diolch o galon

As you know, the County Council's Standards Committee has a statutory role in supporting Councillors to comply with their Code of Conduct.

At County Council level, this has involved an annual review of the Registers of Councillors' Interests.

During 2016, though, the Standards Committee has decided to carry out a similar review in relation to Community Councillors' declared interests. The Committee will undertake sample testing only.

To assist us in this process we need to establish whether your records are available on your website, or on paper format only. Clearly, if they are available on your website then we will undertake the exercise remotely, but if they are only available on paper then we may contact you to arrange a mutually convenient date and time to conduct a review of the relevant records at your premises. We are only interested in the period since May 2013 and wish to see declarations of interests, agendas and minutes.

To facilitate this process we would be grateful if you could please confirm whether these documents are available on your website, or on paper format only.

We would be grateful for your reply by the end of July 2016.

Many thanks

Michael Wilson
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau / Chair of the Standards Committee

Mared Wyn Yaxley
Cyfreithiwr / Solicitor
☎ 01248 752566



Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

CC-017471-AP/319472

Mared W. Yaxley

From: Mared W. Yaxley
Sent: 06 September 2016 09:46
Subject: FW: ADOLYGIAD O GOFRESTR DIDDORDEBAU'R CYNGHORWYR / REVIEW OF THE REGISTER OF MEMBERS' INTERESTS (019456)

Nid yw'n ymddangos ein bod wedi derbyn ymateb i'r ebost isod gennych.

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y bydd adroddiad yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Safonau ar 14.09.2016 ynghylch y mater yma a fydd yn nodi pa gynghorau tref a chymuned sydd (a) wedi, a (b) ddim wedi ymateb i'r cais isod. Er mwyn i ni gael diweddarau'r adroddiad, allwch chi anfon y wybodaeth berthnasol cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda?

Edrychaf ymlaen i glywed gennych, a diolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

It appears that we have not received a response from you to the following email.

I write to inform you that a report will be considered by the Standards Committee on 14.09.16 regarding this issue and will note which town and community councils (a) have, and (b) have not responded to the request. In order that we can update the report, could you please send the relevant information as soon as possible?

I look forward to hearing from you. Thank you for your co-operation.

Yours sincerely,

Mared Wyn Yaxley
Cyfreithiwr / Solicitor
☎ 01248 752566



Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

From: Mared W. Yaxley
Sent: 15 July 2016 12:33
To:

Subject: RE: ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU O DDIDDORDEBAU'R CYNGHORWYR / REVIEW OF THE REGISTER OF MEMBERS' INTERESTS

Prynhawn da,

Anfonaf nodyn i'ch atgoffa ynghylch y neges isod. 'Rwyf eisioes wedi derbyn rhai ymatebion. Edrychaf ymlaen i glywed gan y gweddill erbyn diwedd y mis, os yn bosib, os gwelwch yn dda.

Gyda diolch am eich cydweithrediad.

Good afternoon,

I send a reminder regarding the below email. I have already received some replies. I look forward to hearing from the others before the end of the month, if possible, please.

Many thanks for your co-operation.

Mared Wyn Yaxley
Cyfreithiwr / Solicitor
☎ 01248 752566



Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

From: Mared W. Yaxley
Sent: 27 June 2016 11:15
To:

Subject: ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU O DDIDDORDEBAU'R CYNGHORWYR / REVIEW OF THE REGISTER OF MEMBERS' INTERESTS

Fel y gwyddoch, mae gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir rôl statudol i gefnogi Cyngorwyr i gydymffurfio gyda'u Côt Ymddygiad.

Ar lefel Cyngor Sir, mae hyn wedi cynnwys adolygiad blynyddol o'r Cofrestrau o Ddiddordebau'r Cyngorwyr.

Yn ystod 2016, mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu cynnal adolygiad tebyg o ddiddordebau a ddatganwyd gan Gyngorwyr Cymuned. Bydd y Pwyllgor yn edrych ar sampl ohonynt yn unig.

Cyngor Cymdeithas Llanddaniel-Fab Community Council	Hefo gwefan	www.llanddaniel.org/home www.llanddaniel.org/1/cartref
Cyngor Cymdeithas Llanddona Community Council	Hefo gwefan	www.llanddona.org
Cyngor Cymdeithas Llanddyfnan Community Council	Hefo gwefan	llanddyfnan.org
Cyngor Cymdeithas Llaneilian Community Council	Hefo gwefan	www.llaneilian.org.uk
Cyngor Cymuned Llanerchymedd Community Council	Hefo gwefan	www.llanerchymedd.co.uk
Cyngor Cymuned Llaneugrad Community Council	Dim bwriad sefydlu gwefan oherwydd y	Dim cyfeiriad yn wybyddus.

Cyngor Tref a Chymuned / Town and Community Council	Ymateb y Clerc / Clerk's Response	Gwefan / Website
	gôst.	
Cyngor Cymdeithas Llanfachraeth Community Council	Hefo gwefan	www.ccllanfachraeth.co.uk
Cyngor Cymdeithas Llanfaelog Community Council	Hefo gwefan	www.llanfaelogcommunitycouncil.gov.uk
Cyngor Cymdeithas Llanfaethlu Community Council	Hefo gwefan	llanfaethluallanfwrog.com
Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf Community Council	Hefo gwefan	cyngorcymunedllanfairme.co.uk
Cyngor Cymdeithas Llanfair yn Neubwll Community Council	Hefo gwefan	www.llanfairynneubwll.org
Cyngor Cymuned Llanfairpwll Community Council	Hefo gwefan	www.llanfairpwll.org
Cyngor Cymdeithas Llanfihangelescei fiog Community Council	Yn y broses o sefydlu gwefan. Gobeithio bod yn fyw erbyn Chwefor 2017.	Dim cyfeiriad yn wybyddus.
Cyngor Tref Llangefni	Hefo gwefan	www.llangefni.org www.llangefni.org/cy

Cyngor Tref a Chymuned / Town and Community Council	Ymateb y Clerc / Clerk's Response	Gwefan / Website
Town Council		
Cyngor Cymdeithas Llangoed a Phenmon / Llangoed and Penmon Community Council	Hefo gwefan	www.cyngorcymunedllangoedapenmon.co.uk
Cyngor Cymdeithas Llangristiolus Community Council	Dim ymateb	www.community-council.org.uk/llangristiolusacerrigceinwen/
Cyngor Cymdeithas Llanidan Community Council	Hefo gwefan	www.brynsiencyn.org
Cyngor Cymdeithas Mechell Community Council	Hefo gwefan	www.llanfechell.info
Cyngor Cymuned Moelfre Community Council	Yn y broses o greu gwefan 10/01/2017	Dim cyfeiriad yn wybyddus.
Cyngor Cymuned Penmynydd a Star / Penmynydd and Star Community Council	Hefo gwefan	[dim cadarnhâd o'r cyfeiriad a 'rydym wedi methu ei ddarganfod ein hunain ar y wê]
Cyngor Cymdeithas Pentraeth Community Council	Hefo gwefan	www.pentraeth-cc.cymru
Cyngor Tref	Hefo	www.menaibridge.org

Cyngor Tref a Chymuned / Town and Community Council	Ymateb y Clerc / Clerk's Response	Gwefan / Website
Porthaethwy / Menai Bridge Town Council	gwefan	
Cyngor Cymdeithas Rhoscolyn Community Council	Dim ymateb	ccrhoscolyn.org
Cyngor Cymuned Rhosybol Community Council	Hefo gwefan	www.ccrhosybol.co.uk
Cyngor Rhosyr Council	Hefo gwefan	rhosyr.co.uk
Cyngor Bro Trearddur Community Council	Hefo gwefan	www.trearddurcommunitycouncil.co.uk
Cyngor Cymdeithas Tref Alaw Community Council	Gwefan yn cael ei datblygu	Dim cyfeiriad yn wybyddus.
Cyngor Bro Trewalchmai Community Council	Hefo gwefan	www.trewalchmai.co.uk
Cyngor Cymuned Y Fali / Valley Community Council	Hefo gwefan	www.valley-community-council.wales

ATODIAD / APPENDIX

2

Un Llais Cymru Canllawiau Gwefan

Cyflwyniad

Mae gwefannau yn ffordd effeithlon ac effeithiol o roi gwybodaeth i gymunedau a rhyngweithio ac ymgynghori gyda nhw. Fodd bynnag, datblygodd gwefannau ymhlith cynghorau cymuned ar draws Cymru mewn ffordd ddigon ad hoc dros y blynyddoedd. Mae llawer o gynghorau cymuned a thref wedi datblygu gwefannau bywiog ardderchog sy'n eu galluogi i ymgynghori a rhyngweithio'n llawn gyda'u cymunedau lleol, ond mae nifer fawr o gynghorau nad oes ganddynt unrhyw bresenoldeb o gwbl ar y we ac yn naturiol mae nifer o gynghorau sydd rhywle yn y canol.

Cynhyrchwyd y canllawiau hyn gan Un Llais Cymru er mwyn cyflawni dwy nod benodol:

1. Cefnogi ac annog cynghorau cymuned a thref i ddatblygu gwefan.
2. Diffinio model, ar ddwy lefel, ar gyfer cynnwys a gweithrediad gwefan nodweddiadol gan gyngor cymuned neu dref.

1. Cefnogaeth ac Anogaeth

- I lawer o gynghorau cymuned a thref mae byd TG a'r Rhyngwrdd yn faes nad ydynt yn teimlo fod ganddynt y medrau, yr wybodaeth na'r ddealltwriaeth angenrheidiol ynddo i allu ystyried datblygu gwefan. Pwrpas y canllawiau hyn yw rhoi i gyngor ffocws ar gyfer meithrin hyder a chynnig cefnogaeth i'r cynghorau hynny sy'n gobeithio datblygu eu gwefannau eu hunain. Gall cynghorau sydd eisiau datblygu gwefan ddefnyddio'r canllawiau i greu fframwaith y gallant weithio oddi fewn iddi. Mae cefnogaeth ychwanegol hefyd ar gael i gynghorau trwy bartner fudiad Un Llais Cymru.
- Mae'r canllawiau hefyd yn ddefnyddiol i gynghorau cymuned sydd wedi datblygu gwefan yn barod fel y gallant farnu pa mor effeithiol a chynhwysfawr ydyw trwy ddefnyddio'r meini prawf model i sicrhau ei bod yn cyrraedd y safonau angenrheidiol. Os nad ydyw, bydd y canllawiau yn awgrymu'r cynnwys neu'r gwasanaethau ychwanegol sydd eu hangen i wneud y wefan yn fwy effeithiol.
- Mae gwefannau yn cael eu gweld yn aml yn bethau sy'n rhy ddrud ac yn cymryd gormod o amser i'w datblygu'n iawn. Mae Un Llais Cymru yn ceisio sicrhau, trwy'r partneriaethau a sefydlodd, y bydd y wefan **Lefel 1** sylfaenol, a ddisgrifir yn y canllawiau sy'n dilyn, ar gael i unrhyw gyngor o fewn cyllideb resymol.

2. Cynnwys a Gweithrediad Gwefannau

- Dylai gwefannau cynghorau cymuned a thref gynnig ffordd effeithiol o roi gwybodaeth i'r gymuned leol a rhyngweithio ac ymgynghori gyda hi
- Mae'r canllawiau hyn yn ceisio sicrhau, ym mha gymuned bynnag y mae person yn byw ynddi yng Nghymru, y byddant yn gallu derbyn lefel sylfaenol a chysn o wybodaeth ac y byddant yn gallu cyfathrebu gyda'r cyngor trwy wefan o'r fath.
- Mae'r canllawiau hyn hefyd yn amlinellu'r swyddogaethau technegol sylfaenol ddylai fod yn sail i wefan cyngor cymuned neu dref.

- Mae Un Llais Cymru wedi cadw'r canllawiau hyn yn fyr a dealladwy er mwyn hoelio sylw ar yr angen i geisio datblygu gwefannau mewn ffordd sy'n gyson a chydawns. Diffiniwyd dwy lefel o weithrediad. Mae **Lefel 1** yn cynnig y lefel isaf-derbyniol o gynnwys a gweithrediad y dylai gwefan unrhyw gyngor cymuned neu dref eu cyflawni. Mae **Lefel 2** yn cynnwys swyddogaethau ychwanegol y gellir eu hychwanegu at wefan er mwyn gwella ei hygyrchedd a'i gallu i ryngweithio ac ymgynghori. Gellir ychwanegu'r swyddogaethau ychwanegol hyn pryd bynnag y mae unrhyw gyngor yn penderfynu datblygu ymhellach ei bresenoldeb ar y we.

Meini Prawf Gwefan Lefel 1

Cynllun Gwefan

1. Dylai cynllun gwefan adlewyrchu'r gymuned a'r amgylchedd lleol.
2. Dylai'r wefan gynnwys System Rheoli Cynnwys (CMS). Pwrpas hynny yw gallu golygu pob tudalen yn llawn er mwyn sicrhau y gall staff y cyngor, cynghorwyr neu wirfoddolydd penodedig ddiweddarau'r wefan yn gyflym a rhwydd fel bod y wefan yn cael ei chadw'n gyfredol, un o'r nodweddion mwyaf hanfodol ar gyfer unrhyw wefan.
3. Dylai fod yn gydnaws â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mae'r Ddeddf honno'n mynnu fod rhaid i unrhyw wefan yn y sector llywodraeth gynnwys o leiaf ganllaw gallu cynnwys gwe w3c ar raddiad cydymffurfiaeth lefel 2.
4. Rhaid i gynnwys y wefan fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cynnwys Generig i Wefannau

1. Gwybodaeth Gyswllt ar gyfer y Clerc, gan gynnwys rhif ffôn ac e-bost.
2. Gwybodaeth gefndir am yr ardal a'r gymuned lleol.
3. Ffurflen ymholiadau cyffredinol fel y gall y gymuned lleol gyfathrebu a rhyngweithio'n rhwydd gyda'r cyngor.
4. Gwefannau a chyfeiriadau defnyddiol eraill, rhifau ffôn neu fannau cyswllt eraill ar gyfer gwasanaethau brys a lleol.
5. Gwybodaeth gyffredinol am y gymuned – meddygol, addysgol, mudiadau gwirfoddol, eglwysi a busnesau lleol.
6. Ymwadiad ar gyfer y wefan.
7. (DEWIS – Tudalen busnesau lleol allai gynhyrchu incwm, os oes angen, i dalu am y wefan ac i'w gwneud yn gynaliadwy).

Gwybodaeth Benodol am y Cyngor

1. Gwybodaeth gyswllt ar gyfer cynghorwyr.
2. Agendau & chofnodion cyfarfodydd/prif bwyllgorau'r Cyngor.
3. Gwybodaeth cynllunio.
4. Adroddiad a chyfrifon blynyddol.
5. Cylchlythyron.
6. Dogfennau strategol.
7. Cysylltiadau i wefannau lefelau eraill o lywodraeth/cyrff cysylltiol.
8. Manylion am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Meini Prawf Gwefan Lefel 2 (Ychwanegol)

Efallai y bydd cynghorau sydd wedi cyflawni gwefan Lefel 1 neu gynghorau mwy yn dymuno datblygu eu gwefannau er mwyn ehangu eu hygyrchedd a'u gallu i ryngweithio ac ymgynghori. Byddai'r cyfleusterau hyn yn cynnig cyfleoedd o'r fath:

- Y gallu i chwilio'r wefan – gwell mordwyaeth ar gyfer gwefannau mwy.
- Map o'r safle sy'n dangos holl dudalennau'r wefan ar un siart, gyda chysylltiadau â'r tudalennau hynny.
- Dewisiadau o ran meintiau ffont a chyferbynnedd – gwella cydymffurfiaeth â'r DDA.
- Llecynnau preifat y gellid cael mynediad iddynt trwy enw defnyddiwr a chyfrinair er mwyn galluogi'r Clerc/cynghorwyr i rannu gwybodaeth 'nad yw ar gyfer y cyhoedd'.
- Blog gwefan.
- E-gylchlythyr.
- Ffurflenni adrodd yn ôl y galw.
- Fforwm.
- Pleidleisio unionsyth ar-lein.
- Holiaduron ar-lein.
- Diweddariadau e-bost y gall defnyddwyr gofrestru ar eu cyfer er mwyn cael gwybod pryd mae tudalen gwefan yn cael ei diweddarau.
- System rheolaeth fel bod gan grwpiau cymunedol ac eraill y gallu i olygu gwe-dudalennau penodol.

Cynhyrchwyd y canllawiau hyn er mwyn annog a chefnogi pob cyngor cymuned a thref naill ai i ddatblygu gwefan am y tro cyntaf neu alluogi cynghorau i sicrhau bod eu gwefan yn cynnig lefel gyson o wybodaeth ar draws pob cymuned yng Nghymru.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	8 Mawrth 2017
TEITL YR ADRODDIAD:	Fideo yr Ombwdsmon i Aelodau Etholedig
PWRPAS YR ADRODDIAD:	I ddiweddarau'r Pwyllgor Safonau ar pa gynghorau tref a chymuned sydd wedi cadarnhau fod y fideo wedi ei wyllo.
ADRODDIAD GAN:	Cyfreithiwr - Llywodraethu Corfforaethol
SWYDDOG CYSWLLT:	Mared Wyn Yaxley, mwyics@ynysmon.gov.uk 01248 752566

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Ar 05/07/2016 derbyniwyd ebost gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (C.L.I.L.C) gyda linc i fideo newydd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar YouTube. Er mai wedi ei baratoi ar gyfer aelodau newydd yn dilyn yr etholiad fis Mai 2017 mae'r fideo, teimlid fod yna wybodaeth ynddo oedd yn berthnasol i aelodau presennol hefyd.

Ar 21/07/2016, anfonwyd copi o ebost C.L.I.L.C i Aelodau Etholedig Cyngor Sir Ynys Môn gyda chais iddynt wyllo'r fideo, sydd ddim ond tua 5 munud o hyd.

Hefyd ar y 21/07/2016, anfonwyd copi o ebost C.L.I.L.C i Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned gyda chais iddynt ddod â'r fideo i sylw eu haelodau. Awgrymwyd efallai y gellid gwyllo'r fideo yn eu cyfarfod nesaf.

Gofynnwyd i Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned i gadarnhau pan 'roedd y fideo wedi ei wyllo. Gweler **Atodiad 1**, sy'n dabl i ddangos yr ymatebion sydd wedi eu derbyn.

2. ARGYMHELLIAD

- A. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad yma a'r ymatebion a nodir yn **Atodiad 1**.

Atodiad 1

Cyngorau Tref a Chymuned/Town and Community Council	Cadarnhad o weld y fideo/Confirmation video viewed
Cyngor Cymuned Aberffraw / Aberffraw Community Council	
Cyngor Tref Amlwch / Amlwch Town Council	26/07/2016
Cyngor Tref Biwmares / Beaumaris Town Council	
Cyngor Cymdeithas Bodedern / Bodedern Community Council	
Cyngor Cymuned Bodffordd / Bodffordd Community Council	
Cyngor Cymdeithas Bodorgan / Bodorgan Community Council	
Cyngor Cymuned Bryngwran / Bryngwran Community Council	
Cyngor Tref Caergybi / Holyhead Town Council	
Cyngor Bro Cwm Cadnant/ Cwm Cadnant Community Council	
Cyngor Bro Cylch y Garn / Cylch y Garn Community Council	
Cyngor Cymuned Llanbadrig / Llanbadrig Community Council	
Cyngor Cymdeithas Llanddaniel Fab / Llanddaniel Fab Community Council	
Cyngor Cymdeithas Llanddona / Llanddona Community Council	
Cyngor Cymdeithas Llanddyfnan / Llanddyfnan Community Council	
Cyngor Cymdeithas Llaneilian / Llaneilian Community Council	
Cyngor Cymuned Llanerchymedd / Llanerchymedd Community Council	
Cyngor Cymuned Llaneugrad / Llaneugrad Community Council	
Cyngor Cymdeithas Llanfachraeth / Llanfachraeth Community Council	
Cyngor Cymdeithas Llanfaelog / Llanfaelog Community Council	
Cyngor Cymuned Llanfaethlu a Llanfwrog / Llanfaethlu and Llanfwrog Community Council	
Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf / Llanfair Mathafarn Eithaf Community Council	
Cyngor Cymuned Llanfairpwll / Llanfairpwll Community Council	
Cyngor Cymdeithas Llanfair yn Neubwll / Llanfair yn Neubwll Community Council	
Cyngor Cymdeithas Llanfihangelesceifiog / Llanfihangelesceifiog Community Council	
Cyngor Tref Llangejni / Llangejni Town Council	28/07/2016
Cyngor Cymdeithas Llangoed a Penmon / Llangoed and Penmon Community Council	
Cyngor Cymdeithas Llangristiolus / Llangristiolus Community Council	
Cyngor Cymdeithas Llanidan / Llanidan Community Council	
Cyngor Cymdeithas Mechell / Mechell Community Council	
Cyngor Cymuned Moelfre / Moelfre Community Council	
Cyngor Cymuned Penmynydd / Penmynydd Community Council	
Cyngor Cymdeithas Pentraeth / Pentraeth Community Council	
Cyngor Tref Porthaethwy / Menai Bridge Town Council	
Cyngor Cymdeithas Rhoscolyn / Rhoscolyn Community Council	
Cyngor Cymuned Rhosybol / Rhosybol Community Council	
Cyngor Cymuned Rhosyr / Rhosyr Community Council	
Cyngor Cymdeithas Trearddur / Trearddur Community Council	
Cyngor Cymdeithas Tref Alaw / Tref Alaw Community Council	
Cyngor Cymuned Trewalchmai / Trewalchmai Community Council	28/10/2016
Cyngor Cymuned Y Fali / Valley Community Council	

CC-019486-MY/355593

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	PWYLLGOR SAFONAU
DYDDIAD:	8 Mawrth 2017
TEITL YR ADRODDIAD:	Taflen 'Manylion Cyswllt a Chyfrifoldebau yr Uwch Dîm Rheoli a Phenaethiaid Gwasanaeth' – adolygiad o'r Strwythur Rheoli
PWRPAS YR ADRODDIAD:	I roi diweddariad ynghylch datblygiad y ddogfen uchod wedi'r trafodaethau ar 14 Medi 2016
ADRODDIAD GAN	Mared Wyn Yaxley, Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol
SWYDDOG CYSWLLT:	Mared Wyn Yaxley, mwyys@ynysmon.gov.uk 01248 752 566

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14.09.2016, trafodwyd y ffaith fod sawl newid wedi digwydd o fewn gwasanaethau'r Cyngor Sir a bod rhai aelodau etholedig yn ansicr ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am sawl maes gweithredol erbyn hyn.

Y teimlad oedd y dylid creu dogfen a fyddai'n ganllaw i Aelodau Etholedig, yn enwedig i Aelodau Etholedig newydd yn dilyn Etholiad Mai 2017, wedi ei seilio ar y Goeden Deulu sydd wedi ei chynnwys yn Rhan 7 Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn. Byddai'r ddogfen yn cynnwys gwybodaeth gyswllt ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth yn ogystal â rhestr o'u cyfrifoldebau cyfredol. Mi fyddai'n llai corfforaethol na'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y Cynllun Dirprwyo yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Gofynnwyd am fewnbwn y Penaethiad Gwasanaeth ynghylch y wybodaeth y dylid ei chynnwys. Crewyd dogfen ddrafft.

Trafodwyd y ddogfen ddrafft honno yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor Safonau ar 08.12.16. 'Roedd awydd ymysg aelodau'r Pwyllgor Safonau i ymestyn y ddogfen i gynnwys enw a manylion cyswllt y Rheolwyr Canol; pwrpas hyn oedd er mwyn rhyddhau'r Pennaethiad Gwasanaeth rhag bod yn bwynt cyswllt ym mhob achos. Er hyn, cytunwyd hefo'r Penaethiaid Gwasanaeth y byddai hyn yn mynd yn groes i'r Protocol sydd yng Nghyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn sy'n trafod y berthynas rhwng aelodau a swyddogion.

Yng Nghyfarfod y Penaethiaid (Penaethiaid y Gwasanaethau) ar 13.12.16, penderfynwyd na ddylid newid y Protocol ac na ddylid cynnwys gwybodaeth am y Rheolwyr Canol yn y ddogfen newydd. Teimlwyd y byddai'n well parhau â'r egwyddor wreiddiol, sef cynhyrchu dogfen coeden deulu yn dangos enw, manylion cyswllt a dyletswyddau neu feysydd gwaith yr holl Benaethiaid Gwasanaeth. Nodwyd y dylid ail-ystyried y sefyllfa o fewn blwyddyn.

2. Y DDOGFEN DDRAFFT

Mae dogfen newydd wedi ei chreu erbyn hyn. Mae'r ddogfen â gwybodaeth sy'n cynnwys enwau, manylion cyswllt a phrif ddyletswyddau'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae **Atodiad 1** yn fersiwn gyfyngedig o'r ddogfen. Bydd y manylion sydd ddim yn ymddangos yn **Atodiad 1** yn cael eu cynnwys ar y ddogfen a fydd yn cael ei chyhoeddi maes o law. Dogfen fewnol yn unig fydd hon.

3. Y CYNLLUN

Bwriedir cyhoeddi'r ddogfen gyflawn (h.y. **Atodiad 1**) ar MonITor, sef gwasanaeth mewnwyd Cyngor Sir Ynys Môn – fel ei fod ar gael ar gyfer staff ac aelodau.

Bwriedir hefyd anfon ebost at aelodau etholedig Cyngor Sir Ynys Môn yn eu hysbysu am fodolaeth y ddogfen newydd.

4. ARGYMHELLIAD

1. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Safonau nodi cynnwys yr adroddiad hwn.
2. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Safonau gadarnhau fod y ddogfen yn **Atodiad 1** yn cyfateb i'r briff ac yn dderbyniol.
 - a. Os ceir cadarnhad, bydd y cynllun (a nodir yn adran C uchod) yn cael ei weithredu. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Safonau gadarnhau eu bod yn cytuno â hyn.

ATODIAD / APPENDIX

1

Manylion Cyswilt a Chyfrifoldebau Uwch Dim Arweinyddiaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth Cyngor Sir Ynys Môn

PRIF WEITHREDWR
Gwynne Jones

- Llysgennad ar gyfer CSYM
- Arwain yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth
- Cynnig cyngor a chymorth i'r Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith ar opsiynau polisi a strategaethau mawr
- Gwelliannau parhaus i wasanaethau'r Cyngor
- Swyddog Cofrestru Etholiadol CSYM

PRIF WEITHREDWR CYNORTHWYOL
Annwen Morgan

Tudalen 90

- Moderneiddio Gwasanaethau gan gynnwys Ysgolion, Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd a Hamdden.
- Cynllun Rheoli Asedau gan gynnwys effeithlonrwydd ynni
- Ynys Ynni
- Cyngorau Tref a Chymuned
- Datblygu Rheolwyr
- Datblygiad Ynys Môn fel lle
- Gwaith Partneriaethol
- Gwasanaeth Cwsmer
- Polisi Iaith Gymraeg a Safonau'r Gymraeg

PRIF WEITHREDWR CYNORTHWYOL
Caroline Turner

- Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
- Rheoli Perfformiad Gwasanaethau'r Cyngor
- Cynllunio a rheoli'r gweithle o fewn y Cyngor Sir
- Gweithio'n gallach, gan gynnwys oriau hyblyg
- Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Cyfathrebu Corfforaethol
- Parhad Busnes

PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG 151
Marc Jones

- Swyddog Statudol o dan Ran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972
- Cadw cyfrifon y Cyngor
- Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf blynyddol
- Monitro gwariant yn erbyn y cyllidebau
- Talu cyflogau a chredydwyr
- Casglu Incwm – y Dreth Gyngor a Threthi Busnes
- Cyfrifo a hawlio grantiau allanol
- Archwilio mewnol
- Yswiriant
- Caffael – rheoli a chynghori ar y broses dendro

PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO
Lynn Ball

- Swyddog Monitro Statudol o dan a5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989
- Moeseg/Codau Ymddygiad/Pwyllgor Safonau/Llywodraethiant
- Cyfansoddiad
- SIRO
- Cefnogaeth Ddinesig/Aelodau
- Cwynion Corfforaethol
- Gwasanaethau Democraidd
- Etholiadau
- Cynllunio Argyfwng
- Pridiannau Tir
- Sgriwtini
- Cyfieithwyr

**PENNAETH
RHEOLEIDDIO A
DATBLYGU
ECONOMAIDD**
Dylan Williams

- Gwarchod y Cwsmer
- Diogelu'r Amgylchedd
- Diogelu Iechyd Cyhoeddus
- Trwyddedu
- Gwasanaethau Cynllunio
- Rheoli Adeiladu
- Datblygu Economaidd
- Ffwrystiaeth a Marchnata gan gynnwys Traethau Baner Las a thrwyddedau morwrol
- Cyfleusterau Môn Actif gan gynnwys y 4 Canolfan Hamdden
- Meysydd chwarae a pharciau
- Rhaglen Ynys Ynni
- Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP)
- Gwasanaeth Cofrestru Sifil
- Cymorth i fusnes
- Rhaglen Cadwyn Gyflenwi Ranbarthol

**PENNAETH
PRIFYRDD,
GWASTRAFF AC
EIDDO**
Dewi R Williams

- Prifffyrdd – Cynnal a Chadw, Gwelliannau a Gwaith Cynnal dros y Gaeaf
- Meysydd Parcio a Gorfodaeth Parcio
- Atal Llifogydd ac Amddiffyn yr Arfordir
- Gwasanaethau Peirianeg Sifil a Chynllunio Peirianyddol
- Rheoli Datblygu - materion Prifffyrdd mewn Ceisiadau Cynllunio
- Llwybrau Cyhoeddus a Llwybr yr Arfordir
- Rheoli Gwastraff – casgliadau biniau, ailgylchu
- Glanhau Strydoedd
- Cludiant cyhoeddus gan gynnwys bysus ysgol a gwasanaethau cymdeithasol.
- Rheoli fflyd
- Eiddo a stadau'r Cyngor gan gynnwys prynu, gwerthu a chynnal adeiladau busnes a ffermydd Cyngor
- Gwaith Pensaernïol i ddylunio adeiladau newydd
- Rheoli Maes Awyr Môn

**PENNAETH
GWASANAETHAU
OEDOLION**
Alwyn Rhys Jones

- Oedolion gydag anghenion dysgu
- Gwasanaethau i bobl hŷn
- Iechyd meddwl oedolion
- Cartrefi preswyl
- Canolfannau dydd
- Gwasanaethau gofal yn y cartref
- Tai â chymorth
- Lleoliadau gwaith cefnogol
- Cartrefi nyrsio a ddarperir gan y sector annibynnol
- Lleoliadau arbenigol a ddarperir gan y trydydd sector
- Gweithwyr Cymdeithasol (oedolion)
- Therapyddion

**PENNAETH
GWASANAETHAU
PLANT**
Anwen M. Hughes

- Gwasanaethau Cymdeithasol i blant
- Plant efo anghenion arbennig sydd angen gofal a chefnogaeth
- Gwarchod plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin
- Plant mewn gofal gan CSYM
- Plant sy'n gadael y system ofal
- Plant ag anabledau a salwch
- Plant sy'n troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu
- Plant sy'n ofalwyr
- Gwasanaethau gofal tu allan i oriau swyddfa
- Prosesau maethu a mabwysiadu
- Cefnogaeth i deuluoedd

**PENNAETH DYSGU
GYDOL OES**
Delyth Wyn
Molyneux

- Addysg gynnar a gofal plant
- Cefnogaeth i ysgolion
- Mynediad i Addysg
- Trafnidiaeth Addysgol
- Anghenion Addysgol Arbennig
- Gwasanaethau Ieuenctid
- Llyfrgelloedd
- Addysg Gydol Oes gan gynnwys sgiliau oedolion a chyswllt Prifysgolion
- Tim o amgylch y teulu
- Dechrau'n Deg
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
- Oriol Ynys Môn
- Carchar a Llys Biwmares
- Melin Llynonn
- Ynys Lawd
- Archifdy

**PENNAETH
TRAWSNEWID
CORFFORAETHOL**
Scott Rowley

- Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Cynllun Digideiddio
- Adnoddau Dynol o fewn y Cyngor
- Datblygu'r Gweithlu / Strategaeth Pobl
- Rheoli Talent – hyfforddiant a chyfluoedd dysgu i staff
- Hyfforddiant Corfforaethol
- Rheoli Projectau o fewn y Cyngor, gan gynnwys Gweithio'n Gallach; Pobl Hŷn; Moderneiddio Ysgolion; Llyfrgelloedd, Treftadaeth a Diwylliant a Rhaglen Drawsnewid y Cyngor
- Cyfathrebu Corfforaethol
- Ymgynghori ac Ymgysylltu
- Fframwaith Cyfathrebu Mewnol o fewn yr Awdurdod
- Perfformiad y Cyngor a Chynllunio Busnes
- Gwasanaeth Cwsmeriaid
- Gwefannau Cymdeithasol
- Cyswllt Môn
- Rheoli Newid – y gweithlu, technoleg a diwyllianol

**PENNAETH
GWASANAETHAU
TAI**
Shan Lloyd Williams

- Tai Cyngor – gan gynnwys Cynnal a chadw, Hawl i Brynu, Gosod Tai, Adeiladu, Ymddygiad gwrth-gymdeithasol
- Cyfrif Refeniw Tai'r Cyngor, casglu rhenti
- Digartrefedd a'r Gofrestr Tai Cymdeithasol
- Tai fforddiadwy - gan gynnwys datblygu o'r newydd efo Cymdeithasau Tai, Cynllun cymorth prynu
- Tai gwag yn y sector preifat
- Grantiau cyfleusterau i'r anabl
- Taclo tlodi gan gynnwys y gwasanaeth budd-daliadau lles
- Sipsiwn a theithwyr
- Cynllun i adleoli ffoaduriaid bregus
- Cymunedau'n gyntaf

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	8 Mawrth 2017
TEITL YR ADRODDIAD:	Nodyn Briffio ar y gofynion cyfreithiol mewn perthynas â datgan a chofrestru diddordeb gan aelodau y Cyngorau Tref a Chymuned
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Adrodd ar yr ymatebion dderbyniwyd gan y Cyngorau Tref a Chymuned
ADRODDIAD GAN:	Cyfreithiwr - Llywodraethu Corfforaethol
SWYDDOG CYSWLLT:	Mared Wyn Yaxley, mwyics@ynysmon.gov.uk 01248 752566

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Trafodwyd adroddiad o dan eitem rhif 12 ar Raglen y Pwyllgor Safonau ar 14 Medi 2016 oedd yn cynnwys gwybodaeth am y gofynion o dan y côd ymddygiad ar gyfer cyngorwyr tref a chymuned.

2. NODYN BRIFFIO

Anfonwyd Nodyn Briffio, fel yr un yn **Atodiad 1**, i Glercod y Cyngorau Tref a Chymuned ar 14 Rhagfyr 2016.

Gofynnwyd i'r Clercod ddod â'r nodyn briffio i sylw eu haelodau, ac yna cysylltu efo Cyfreithiwr- Llywodraethu Corfforaethol cyn 20 Chwefror 2017 er mwyn darparu copi o gofnodion y cyfarfod perthnasol sy'n cadarnhau (a) trafodaeth y Cyngor Cymuned ar y mater, a (b) fod aelodau y Cyngor Cymuned wedi derbyn copi o'r nodyn briffio. Mae **Atodiad 2** yn darparu crynodeb o'r ymatebion sydd wedi eu derbyn.

3. GWYBODAETH BELLACH

Ar yr un diwrnod ac yr anfonwyd y Nodyn Briffio i Glercod y Cyngorau Tref a Chymuned, anfonwyd ebost i Aelodau Etholedig Cyngor Sir Ynys Môn hefyd. Pwrpas yr ebost yma oedd i'w cynghori i fod yn ofalus. 'Roedd consyrn y byddai Aelodau yn cael gwybod am y nodyn briffio yn rhinwedd eu rôl ar y cyngorau tref a chymuned ac yn ansicr yn eu dyletswyddau. Eglurwyd fod y nodyn briffio yn gywir ar gyfer dyletswydd unigolyn sy'n Gynghorydd Tref neu Gymuned yn unig a bod eu rôl nhw fel Cynghorydd efo Cyngor Sir Ynys Môn yn golygu fod yn rhaid iddyn nhw gydymffurfio efo gofynion pellach.

4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau:

A. nodi cynnwys yr adroddiad a'r nodyn briffio yn **Atodiad 1**; ac

- B. i gadarnhau sut mae'n dymuno symud ymlaen mewn perthynas â'r cynghorau hynny sydd ddim wedi ymateb neu wedi ymateb ond heb ddarparu'r wybodaeth sydd wedi ei deisyfu, fel a nodir yn **Atodiad 2**.

ATODIAD / APPENDIX

1

NODYN BRIFFIO AR GYFER CLERCOD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED
Y gofynion cyfreithiol mewn perthynas â Datgan Diddordeb gan Aelodau

A. Cefndir

Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2015 wedi egluro'r sefyllfa mewn perthynas â datgan (llafar) a chofrestru (ysgrifenedig) diddordebau gan Aelodau Cyngorau Tref a Chymuned. Nod y Nodyn Briffio hwn yw crynhoi'r gofynion hynny.

B. Y Gofynion

Mae **Atodiad 1** yn cynnwys dyfyniad o gyngor a ddsbarthwyd gan Un Llais Cymru. Cyngorior Clercod i ddarllen y cyngor hwn ac i dynnu sylw eu Haelodau ato.

(i) Dyletswydd Aelod:

- Cydymffurfio â'r safonau a osodir yng Nghod Ymddygiad eu Cyngor.
- **Peidio defnyddio eu statws i ddylanwadu ar unrhyw benderfyniad sy'n debygol o roi mwy o fantais/anfantais iddynt (neu gydnabod personol) na'r rhelyw o drigolion y ward.**
- I ddatgan diddordeb personol* neu ddiddordeb sy'n rhagfarnu** ar lafar os, a phan, fydd y diddordeb hwnnw'n ymwneud â mater sy'n cael ei ystyried. Mae'n rhaid gwneud hynny pa un ai yw'r cyfarfod yn un ffurfiol neu'n anffurfiol.
- Mae'r gofyn i ddatgan diddordeb personol* neu ddiddordeb sy'n rhagfarnu** hefyd yn cynnwys unrhyw rodd a/neu letygarwch a dderbyniwyd os yw'n gysylltiedig â'r mater sy'n cael ei ystyried.
- Mewn cyfarfodydd ffurfiol:
 - Os yw aelod yn datgan diddordeb personol* / diddordeb sy'n rhagfarnu** am y tro cyntaf, mae'n rhaid i'r Aelod gyflwyno cadarnhad ysgrifenedig o'r diddordeb hwnnw i'r Clerc cyn diwedd y cyfarfod.

Mae'n rhaid i'r cadarnhad gynnwys y canlynol o leiaf:-

- Manylion am y diddordeb personol*/sy'n rhagfarnu**
- Manylion am yr eitem busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag o;
- Llofnod yr Aelod.

Os yw'r diddordeb yn un sy'n rhagfarnu**, mae'n rhaid i'r cadarnhad ysgrifenedig ddatgan hefyd ei fod o / ei bod hi wedi gadael yr ystafell gyfarfod a heb gymryd rhan yn y drafodaeth.

Er hwylustod, argymhellir bod Clercod yn defnyddio dogfen safonol ar gyfer cofrestru'r diddordeb.

- Os nad oes cofrestriad, ni fydd datganiad llafar yn unig yn ddigonol a bydd yr Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Mae'n rhaid cadarnhau yn ysgrifenedig unrhyw newid o safbwynt diddordebau personol*/sy'n rhagfarnu** yn ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod i'r newid ddigwydd.

(ii) Dyletswydd y Clerc:

- Cofnodi unrhyw ddiddordebau a gofrestrir gan Aelodau am y tro cyntaf mewn cyfarfod ffurfiol, yng Nghofrestr Diddordebau'r Cyngor.
- Nid oes ffurf benodedig ar gyfer y Gofrestr, ond mae defnyddio ffurflen safonol ar gyfer pob cofrestriad a'u casglu ynghyd mewn ffeil unigol, yn ôl dyddiad, neu yn ôl Aelod, yn ddigonol. Mae'r ffurflenni unigol hyn, gyda'i gilydd, yn ffurfio'r Gofrestr.
- Sicrhau bod y Gofrestr ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio ar unrhyw amser rhesymol, ac yn electronig ar wefan y Cyngor.
- Ychwanegu unrhyw gofnodion newydd i'r Gofrestr cyn gynted ag sy'n rhesymol bosib ar ôl pob cyfarfod.
- Cofnodi datganiadau llafar a wneir mewn cyfarfodydd, yn y cofnodion, a sicrhau bod y cofnodion hynny'n cael eu cyhoeddi, unwaith y byddant wedi cael eu cadarnhau.

(iii) Yn gyffredinol:-

Nid oes gofyn i Aelodau Cyngor Tref/Cymuned gwblhau cofrestr sefydlog o ddiddordebau h.y. cofrestru manylion ymlaen llaw am gyflogaeth/busnes/daliadau tir/aelodaeth ar gyrff allanol ayb. Dyletswydd Aelodau Tref/Cymuned yw datgan diddordeb "ar y pryd" os, a phan, fydd hynny'n codi mewn cyfarfod.

Mae'n rhaid i Aelodau hefyd gadw mewn cof bod angen iddynt ddatgan diddordeb personol* a diddordeb sy'n rhagfarnu** mewn cyfarfodydd anffurfiol, a thu allan i'r Cyngor, os ydynt yn gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel Aelodau. Mae'n debygol mai datganiad llafar yn unig fydd hwn, gan ei bod yn annhebygol y bydd system yn bodoli ar gyfer cofnodi datganiadau o'r fath.

Efallai y byddai'n arfer dda i Aelodau gadw eu cofnod eu hunain o unrhyw ddatganiadau a wneir o dan y fath amgylchiadau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r Nodyn Briffio hwn, cysylltwch â:

Mared Wyn Yaxley ar mwyys@ynysmon.gov.uk/01248 752566,

Lynn Ball ar lbxcs@ynysmon.gov.uk <<mailto:lbxcs@ynysmon.gov.uk>>/01248 752586 neu

Robyn Wyn Jones ar rwijs@ynysmon.gov.uk / 01248 752134

Troednodyn

- * Diddordebau Personol - Cyfeiriwch at y Cod Ymddygiad sy'n cynnwys rhestr gyflawn o ddiddordebau personol posib
- ** Diddordebau sy'n Rhagfarnu – Diddordebau personol yw'r rhain y byddai arsyllwr gwrthrychol yn ystyried eu bod mor sylweddol fel eu bod yn debygol o gyfaddawdu gallu Aelod i weithredu er budd y cyhoedd.

Cofrestr Buddiannau Aelodau

Mae cofrestr buddiannau a ddatganwyd gan aelodau yn gysyniad a gynhwyswyd mewn sawl darn o ddeddfwriaeth llywodraeth leol, ac yn enwedig felly ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn ystod y ganrif hon. Mae'r cysyniad hwn yn gydnaws â llywodraethu agored a thryloyw. Ceir cysyniad tebyg ar gyfer cofnodi unrhyw roddion neu letygarwch a dderbyniwyd gan aelodau etholedig. Fodd bynnag, yn gyffredinol, cyfyngwyd gweithredu gofynion o'r fath i'r cyrff sector cyhoeddus mwy megis awdurdodau unedol. Yn fwy diweddar, mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru wedi cadarnhau fod angen hefyd i gynghorau cymuned a thref yng Nghymru gadw "cofrestr" o'r fath a bod rhaid i'r gofrestr honno gael ei harddangos yn electronaidd ar wefan y cyngor, cyfleuster y mae'n rhaid i bob cyngor lleol ei gael o 2015/2016 ymlaen.

Yn rhwystredig iawn, cafwyd dryswch a gwahaniaethau barn a heriau ar y mater yma, o ran beth yn union sydd ei angen. Mae Un Llais Cymru yn barnu mai ystyr "cofrestr" yw dogfennaeth mewn unrhyw fformat sy'n dangos buddiannau aelodau (a byddai'r un peth yn wir ar gyfer unrhyw roddion neu letygarwch a dderbyniwyd gan aelodau). Nid yw gweision sifil Llywodraeth Cymru yn awgrymu unrhyw fformatau penodol i'r perwyl hwn yn y canllawiau a gyhoeddwyd ganddynt. Datblygodd Un Llais Cymru ffurflen enghreifftiol ar gyfer diben o'r fath (gweler isod).

Beth mae angen i gynghorau ei wneud:

Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, daeth yn amlwg nad yw'r cyfrifoldeb newydd i gyhoeddi'r gofrestr buddiannau ar-lein yn cynnwys llenwi'r ffurflen yr oedd Un Llais Cymru wedi'i dosbarthu i aelod gynghorau ar yr 28ain Mai 2015. Credwyd yn wreiddiol y cafodd y ddarpariaeth i eithrio cynghorwyr cymuned a thref o ofynion paragraff 15(1) y model god ymddygiad i gofrestru rhai buddiannau ariannol ac o fathau eraill o fewn 28 diwrnod i dderbyn eu swyddi ei dileu gan Ddeddf 2013. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau gyda swyddog perthnasol Llywodraeth Cymru, gwelwn nad yw hynny'n wir. Mae'r swyddog yn deall efallai y bu dryswch ar y mater hwn, ac fe gadarnhaodd nad yw Deddf 2013 yn effeithio o gwbl ar ofynion y cod ymddygiad sy'n ymwneud â datgelu a chofrestru buddiannau. Yn fyr, mae gofynion y cod ymddygiad, fel y mae'n berthnasol i gynghorau cymuned a thref, fel a ganlyn:

- a) Rhaid i gynghorwyr ddatgan buddiant personol ac, os yn briodol, fuddiant rhagfarnol sy'n gysylltiedig â materion perthnasol pan maent yn bresennol mewn cyfarfodydd.
- b) Pan mae cynghorwyr yn datgan buddiant personol am y tro cyntaf, rhaid iddynt roi cadarnhad ysgrifenedig o'r buddiant i'r Swyddog Priodol, cyn neu'n union wedi diwedd y cyfarfod. Mae'n arfer da i'r Swyddog Priodol gofnodi'r datganiadau hyn yng nghofnodion y cyfarfod.
- c) Dylai'r Swyddog Priodol gofnodi buddiannau a ddatganwyd mewn cyfarfodydd am y tro cyntaf yn y gofrestr buddiannau yn unol ag adran 81 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'w harchwilio gan

y cyhoedd ar unrhyw adeg resymol ac, yn dilyn dyfodiad Deddf 2013, rhaid iddi gael ei gosod ar wefan y cyngor.

d) Dylid diweddarau'r gofrestr cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol yn dilyn pob cyfarfod pan gaiff buddiannau newydd eu datgan.

Pa ddatganiadau i'w cofnodi:

Dylid gwneud datganiadau o fuddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru (trowch at y Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer aelodau cynghorau cymuned – sydd ar gael ar lecyn aelodau gwefan Un Llais Cymru). Mae'r canllawiau yn cynnwys manylion am fuddiannau personol a rhagfarnol ac maent yn cyfeirio hefyd at roddion a lletygarwch. Yn y pendraw, mater i'r aelodau yw penderfynu a ydynt yn gwneud datganiad o fuddiant ai peidio, gan ddibynnu ar amgylchiadau eu sefyllfa. Mae gan eraill (trydydd partion) wastad yr hawl i herio unrhyw fethiant i ddatgan buddiant, ac mae'n bwysig felly fod aelodau'n cael eu hatgoffa i gymryd materion o'r fath o ddifrif.

Templed ar gyfer cofrestr/datganiadau:

Mae Un Llais Cymru wedi paratoi "templed" i'w ddefnyddio gan aelod gynghorau at ddibenion gweithredu cofrestr o'r fath, a chafodd ei ddsbarthu i aelod gynghorau. Mae copïau o'r templed hwn ar gael ar lecyn aelodau gwefan Un Llais Cymru, os oes angen. Os ydych yn defnyddio'r ffurflenni hyn (neu unrhyw rai eraill) ar gyfer cofnodi datganiadau o fuddiannau yn swyddogol, y "gofrestr" fel y cyfryw fydd y casgliad o'r holl ffurflenni yn cael eu cyflwyno gyda'i gilydd. Gellir cyflwyno'r rhain mewn unrhyw ddull cyfleus, efallai wedi'u trefnu yn ôl enw aelod neu ddyddiad. Yn naturiol, ni fydd aelodau nad ydynt wedi datgan unrhyw fuddiannau wedi llenwi unrhyw ffurflenni i'r perwyl hwnnw, sy'n golygu y bydd eu cofnodion yn wag (hynny yw, ni fydd ganddynt unrhyw gofnodion). Nid yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol dangos unrhyw ffurflenni "gwag" o'r fath ar wefan y cyngor, ond nid yw'n anghywir gwneud hynny os mynnwch.

Cyngor Council	Dyddiad y cyfarfod Date of Meeting	Copi o'r Cofnodion wedi eu darparu? Copy of Minutes supplied?
Cyngor Cymdeithas Aberffraw / <i>Aberffraw Community Council</i>		
Cyngor Tref Amlwch / <i>Amlwch Town Council</i>		
Cyngor Tref Biwmares / <i>Beaumaris Town Council</i>		
Cyngor Cymdeithas Bodedern / <i>Bodedern Community Council</i>		
Cyngor Cymdeithas Bodffordd / <i>Bodffordd Community Council</i>		
Cyngor Cymdeithas Bodorgan / <i>Bodorgan Community Council</i>		
Cyngor Cymdeithas Bryngwran / <i>Bryngwran Community Council</i>		
Cyngor Tref Caergybi / <i>Holyhead Town Council</i>		
Cyngor Bro Cwm Cadnant/ Cwm Cadnant Community Council		
Cyngor Bro Cylch y Garn / <i>Cylch y Garn Community Council</i>		
Cyngor Cymuned Llanbadrig / <i>Llanbadrig Community Council</i>	15.12.2016	Do / Yes
Cyngor Cymdeithas Llanddaniel-Fab / <i>Llanddaniel-Fab Community Council</i>		
Cyngor Cymdeithas Llanddona / <i>Llanddona Community Council</i>	18.01.2017	Do / Yes
Cyngor Cymdeithas Llanddyfnan / <i>Llanddyfnan Community Council</i>		
Cyngor Cymdeithas Llaneilian / <i>Llaneilian Community Council</i>		
Cyngor Cymuned Llanerchymedd / <i>Llanerchymedd Community Council</i>		
Cyngor Cymuned Llaneugrad / <i>Llaneugrad Community Council</i>		
Cyngor Cymdeithas Llanfachraeth / <i>Llanfachraeth Community Council</i>		
Cyngor Cymdeithas Llanfaelog / <i>Llanfaelog Community Council</i>		
Cyngor Cymdeithas Llanfaethlu / <i>Llanfaethlu Community Council</i>		
Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf / <i>Llanfair Mathafarn Eithaf Community Council</i>	Ionawr 2017 / January 2017	Do / Yes
Cyngor Cymuned Llanfairpwll/ Llanfairpwll Community Council		
Cyngor Cymdeithas Llanfair yn Neubwll / <i>Llanfair yn Neubwll Community Council</i>	17.01.2017	Do / Yes
Cyngor Cymdeithas Llanfihangelesceifiog/ Llanfihangelesceifiog Community Council		

Cyngor Tref Llangefni / <i>Llangefni Town Council</i>		
Cyngor Cymdeithas Llangoed a Penmon / <i>Llangoed & Penmon Community Council</i>	11.01.2017	Do / Yes
Cyngor Cymdeithas Llangristiolus / <i>Llangristiolus Community Council</i>		
Cyngor Cymdeithas Llanidan / <i>Llanidan Community Council</i>	31.01.2017	Na / No
Cyngor Cymdeithas Mechell/ Mechell Community Council		
Cyngor Cymuned Moelfre / <i>Moelfre Community Council</i>	09.01.2017	Na / No
Cyngor Cymuned Penmynydd a Star / <i>Penmynydd & Star Community Council</i>		
Cyngor Cymdeithas Pentraeth / <i>Pentraeth Community Council</i>		
Cyngor Tref Porthaethwy / <i>Menai Bridge Town Council</i>		
Cyngor Cymdeithas Rhoscolyn/ Rhoscolyn Community Council		
Cyngor Cymuned Rhosybol/ Rhosybol Community Council		
Cyngor Rhosyr / <i>Rhosyr Council</i>		
Cyngor Cymdeithas Trearddur / <i>Trearddur Community Council</i>	31.01.2017	Do / Yes
Cyngor Cymdeithas Tref Alaw/ Tref Alaw Community Council		
Cyngor Bro Trewalchmai / <i>Tregwalchmai Community Council</i>	09.01.2017	Do / Yes
Cyngor Cymuned Y Fali / <i>Valley Community Council</i>	21.12.2016	Do / Yes

This page is intentionally left blank